

2015

Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

**Gadawyd y tudalen hwn yn
wag yn fwriadol**

Paratowyd gan:

Owen Griffiths

Swyddog Perygl Llifogydd

Rhwydwaith Priffyrdd

Gwasanaethau Cymdogaeth

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	5
2.	Pwrpas Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd er mwyn rheoli perygl llifogydd	6
2.1.	Beth yw Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLI)?	6
2.2.	Beth sydd wedi'i gynnwys yn y CRhPLI hwn	6
2.3.	Cyd-destun Deddfwriaethol	7
2.4.	Asesiad Perygl Llifogydd Cychwynnol	7
2.5.	Llunio mapiau perygl llifogydd a mapiau risg llifogydd ar gyfer Ardaloedd Perygl Llifogydd	8
2.6.	Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer Ardaloedd Perygl Llifogydd	8
2.7.	Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr	8
3.	Ardal yr Astudiaeth	9
3.1	Ardal Weinyddol	9
4.	Perygl Llifogydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	12
4.1	Crynodeb o'r mathau o lifogydd a geir yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	12
4.2	Cymunedau sydd yn wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd dŵr wyneb yn ardal CBST	14
5.	Sut rydym yn rheoli perygl llifogydd ar hyn o bryd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	22
5.1	Sut rydym yn blaenoriaethu ein gwaith	23
5.2	Gyda phwy rydym yn gweithio i reoli perygl llifogydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	24
5.3	Sut y cydlynwyd y CRhPLI hwn	25
5.4	Mesurau sydd eisoes ar waith yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i reoli perygl llifogydd	26
6.	Cydlynu â Chynllun Rheoli Basn Afon Hafren a Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd Ardal Basn Afon Hafren	27
7.	Amcanion Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	31
8.	Sut y bydd CBST yn rheoli perygl llifogydd ar lefel leol	33
9.	Cydlynu â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol	43
9.1	Casgliadau'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd	47
10.	Ymgynghoriad Cyhoeddus	48
11.	Monitro ac adolygu	49
12.	Cyfeiriadau	50
	Atodiad 1: Gofyniad cyfarwydddeb Llifogydd yr UE	51
	Atodiad 2: Rheoliadau Perygl Llifogydd a Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010	52
	Atodiad 3: Manylion cyswllt yr awdurdodau rheoli risg	53
	Atodiad 4: Mesurau Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Ardal Basn Afon Hafren	55
	Atodiad 5: Amcanion y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd (SLRhPLI)	57
	Atodiad 6: Ffiniau Wardiau	58
	Atodiad 7: CBST Map wedi'i ddiweddarau - Modelau Llifogydd Dŵr Wyneb Perygl Uchel	59
	Atodiad 8: CBST Map wedi'i ddiweddarau - Modelau Llifogydd Dŵr Wyneb Perygl Canolig	60
	Atodiad 9: CBST Map wedi'i ddiweddarau - Modelau Llifogydd Dŵr Wyneb Perygl Isel	61
	Atodiad 10: CBST Map - Modelau Llifogydd Dŵr Wyneb Perygl Uchel, Canolig ac Isel	62
	Atodiad 11: Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLI) Adroddiad ar yr Ymgynghoriad	63

Tablau a Ffigyrau

Tablau

Tabl 1	Nodi'r Cyfrifon Perygl a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru 15 a JBA yn 2013	
Tabl 2	Nodi'r Perygl Isel o Llifogydd Dŵr Wyneb ar Lefel Wardiau	16-17
Tabl 3	Nodi'r Perygl Canolig o Llifogydd Dŵr Wyneb ar Lefel Wardiau	18-19
Tabl 4	Nodi'r Perygl Uchel o Llifogydd Dŵr Wyneb ar Lefel Wardiau	20-21
Tabl 5	Amlinellu Prif Swyddogaethau'r Awdurdodau Rheoli Risg sy'n gweithredu yn CBST	24
Tabl 6	Amcanion y SLRhPLI	30
Tabl 7	Cynlluniau Perygl Llifogydd CBST yn erbyn pedwar Amcan trosfwaol y Strategaeth Genedlaethol	37-38
Tabl 8	Manylion y Cyfnod Ymgynghori sydd eu hangen cyn cyhoeddi fersiwn llawn y CRhPLI	40

Ffigyrau

Ffigur 1	Amserlen y Rheoliadau Perygl Llifogydd	7
Ffigur 2	Delweddau Eiconig o Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân	10
Ffigur 3	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chymru	11
Ffigur 4	Map o Ardaloedd Perygl Llifogydd a Gytunwyd yng Nghymru a Lloegr	13
Ffigur 5	Ardaloedd Perygl Llifogydd Cychwynnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	14
Ffigur 6	Dalgylchoedd Rheoli Ardaloedd Basnau Afonydd Cymru	27
Ffigur 7	Ardal Basn Afon Hafren	28
Ffigur 8	Crynodeb o'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a ddatblygwyd i reoli perygl llifogydd yn CBST	40
Ffigur 9	Ffiniau Wardiau Etholiadol CBST	46
Ffigur 10	CBST Map Risg Llifogydd Uchel – Dŵr wyneb	47
Ffigur 11	CBST Map Risg Llifogydd Canolig – Dŵr wyneb	48
Ffigur 12	CBST Map Risg Llifogydd Isel – Dŵr wyneb	49
Ffigur 13	CBST Mapiau Risg Llifogydd yn dangos Perygl Uchel, Canolig ac Isel	50

Byrfoddau

ACDC	Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru
ALE	Amddiffyn Lefel Eiddo
ALILIA	Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol
APLI	Ardal Perygl Llifogydd
APLIC	Asesiad Perygl Llifogydd Cychwynnol
ARhR	Awdurdod Rheoli Risg
BGS	Arolwg Daearegol Prydain
CADW	Llywodraeth Cymru
CBST	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
CRhBAH	Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren
CRhPLI	Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd
DCWW	Dŵr Cymru/Welsh Water
DRhLID	Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010
EBGH	Eiddo, Busnesau a Gwasanaethau Hanfodol
ESDGC	Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang
FfCLIG	Fforwm Cydnherthedd Lleol Gwent
GIG	Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
GRhPLIDDdC	Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd De-ddwyrain Cymru
JBA	Jeremy Benn Associates Consultancy
MGDC	Maes Glo De Cymru
MLIDWDD	Map Llifogydd Dŵr Wyneb a ddiweddarwyd
SAHN	Safleodd Amgylcheddau Hanesyddol a Naturiol
SBCN	Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur
SDCau	Systemau Draenio Cynaliadwy
SDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
SGRhPLIEA	Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol
SLRhPLI	Y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd
UE	Yr Undeb Ewropeaidd

1. Cyflwyniad

Mae rheoli perygl llifogydd yn syniad sydd wedi dod i'r amlwg ar agenda llywodraethau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol. Amlinellwyd pwyslais y Deyrnas Unedig ar lifogydd gan Syr Michael Pitt yn sgil sefydlu Adolygiad Pitt yn 2008. Datblygwyd yr adroddiad fel adolygiad cynhwysfawr o'r gwersi a ddysgwyd yn sgil llifogydd yr haf 2007. Roedd yr adroddiad cynhwysol 500 tudalen o hyd yn cynnwys 92 o argymhellion a gyflwynwyd gerbron llywodraeth y Deyrnas Unedig. Ar lefel ryngwladol, cynlluniwyd cyfarwyddeb llifogydd (Cyfarwyddeb 2007/60EC Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar asesu perygl llifogydd) i gynnig strategaeth gyffredin ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Troswyd y gyfarwyddeb yn gyfraith ar gyfer y Deyrnas Unedig gan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009. Roedd y rheoliadau yn gosod sawl gofyniad ar awdurdodau lleol, yn yr ardaloedd lle nodwyd bod perygl llifogydd, i weithredu fel a ganlyn:

- Llunio mapiau ac adroddiadau asesiad perygl llifogydd cychwynnol (APLIC) erbyn 22 Rhagfyr 2011(a'u defnyddio i nodi 'Ardaloedd Perygl Llifogydd' yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth);
- Llunio mapiau perygl llifogydd a mapiau risg llifogydd erbyn 22 Rhagfyr 2013;
- Paratoi cynlluniau rheoli perygl llifogydd (CRhPLI) erbyn 22 Rhagfyr 2015;
- Adolygu a diweddarau pob asesiad, map a chynllun bob 6 blynedd.

Yn sgil datblygu'r Rheoliadau Perygl Llifogydd, lluniwyd Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i roi eglurder o ran pwerau a chyfrifoldebau awdurdodau i reoli perygl llifogydd. Nod y Rheoliadau Perygl Llifogydd a'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yw lleihau'r perygl o lifogydd yn y dyfodol; drwy ddefnyddio safon perygl llifogydd ar gyfer y Deyrnas Unedig ac Ewrop. Mewn perthynas â Chymru, mae agweddau ar hyn yn canolbwyntio ar strategaethau cenedlaethol (Llywodraeth Cymru), strategaethau Basnau Afonydd (Cyfoeth Naturiol Cymru) a strategaethau lleol (Awdurdod Lleol Arweiniol Llifogydd).

Datblygwyd prif egwyddorion y Rheoliadau Perygl Llifogydd yn y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a derbyniwyd nifer o'r argymhellion a gyflwynwyd yn adolygiad Pitt. Roedd y ddeddfwriaeth newydd hon yn dynodi awdurdodau lleol yn Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (ALILIA), gan eu gwneud yn gyfrifol am gyrsiau dŵr cyffredin a llifogydd dŵr wyneb a dŵr daear. Dynododd y ddeddfwriaeth ddau awdurdod rheoli perygl arall (ARhP) mewn perthynas â llifogydd, sef Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) â chyfrifoldeb dros y prif afonydd a chronfeydd dŵr a Dŵr Cymru/Welsh Water (DCWW) â chyfrifoldeb dros gyflenwi a gwaredu dŵr glân a dŵr budr.

Yn ystod cam cyntaf y rheoliadau perygl llifogydd (APLIC), nodwyd bod perygl llifogydd sylweddol mewn 8 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Torfaen yn un o'r 8 ardal a nodwyd o dan y rheoliadau a dynodwyd 'Pont-y-pŵl a Chwmbrân' yn ardal perygl llifogydd. Yn sgil dynodi'r 8 ardal perygl llifogydd, mae'r Rheoliadau yn gosod cyfrifoldeb statudol ar yr 8 Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol i lunio Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLI). Fodd bynnag, mae pob un o'r 22 Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yng Nghymru wedi dewis llunio CRhPLI. Y CRhPLI yw cam olaf y Rheoliadau Perygl Llifogydd ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol wedi datblygu cynllun rheoli gyda'r nod o leihau'r perygl o lifogydd. Defnyddiwyd y mapiau perygl llifogydd a'r mapiau risg llifogydd a ddatblygwyd gan CNC i baratoi'r cynlluniau.

2. Pwrpas Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd i reoli perygl llifogydd

2.1. Beth yw Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd?

Mae llifogydd yn parhau'n fgyythiad mawr i gymunedau ar draws Cymru, ac mae'n bwysig rheoli'r perygl drwy gynllunio'n ofalus er mwyn lleihau'r perygl i'r cymunedau. Mae cynllunio rheoli perygl llifogydd yn galluogi awdurdodau rheoli risg i ddatblygu gwell dealltwriaeth o berygl llifogydd o bob math a chytuno ar flaenoriaethau i reoli'r perygl hwnnw.

Datblygwyd y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd hwn gyda hyn mewn golwg ac mae'n nodi sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn rheoli llifogydd dros y 6 blynedd nesaf er mwyn i'r cymunedau a'r amgylchedd sydd yn wynebu'r perygl mwyaf fod ar eu hennill fwyaf. Wrth wneud hynny, mae'r CRhPLI hwn yn symud ymlaen â'r amcanion a'r camau gweithredu a nodwyd yn ein [Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd](#)

Mae'r CRhPLI hwn hefyd yn anelu at gyflawni rhai o'r amcanion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol,¹ lle ceir fframwaith cenedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru drwy bedwar amcan cyffredinol:

- **Lleihau effeithiau** llifogydd ac erydu arfordirol ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd.
- **Cynyddu ymwybyddiaeth pobl o** berygl llifogydd ac erydu arfordirol a'u cynnwys yn yr ymateb i'r perygl hwnnw.
- **Darparu ymateb effeithiol a pharhaus** i lifogydd ac erydu arfordirol.
- **Blaenoriaethu buddsoddiad** yn y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf

2.2 Beth sydd yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yng Nghynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cynnwys yr elfennau a nodwyd yng Nghyfarwyddeb Llifogydd yr UE (gweler atodiad 1). Casglwyd a diweddarwyd y rhan fwyaf o'r wybodaeth hon yn ystod y cylch cyntaf (2010 – 2016), ar sail canfyddiadau ein Asesiad Perygl Llifogydd Cychwynnol a'r mesurau a nodwyd yn ein Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd (SLRhPLI).

Mae'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd hwn yn nodi amcanion addas ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn yr ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun. Mae'r amcanion yn canolbwyntio ar leihau effeithiau andwyol llifogydd ar iechyd pobl, yr amgylchedd, treftadaeth ddiwylliannol a gweithgaredd economaidd.

I wneud hyn, mae'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd hwn yn amlygu'r ardaloedd sydd yn wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd dŵr wyneb a chyrsgiau dŵr cyffredin yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, yn dod i gasgliadau ar sail y peryglon hyn, ac y nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y 6 blynedd nesaf i liniaru'r peryglon hyn a gwella cydnerthedd ein cymunedau.

¹ <http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/flooding/nationalstrategy/strategy/?lang=cy>

Oherwydd natur llifogydd a'r sefyllfa ariannol bresennol, rydym hefyd wedi ystyried camau i leihau'r tebygolrwydd o lifogydd gan ddefnyddio mesurau nad ydynt yn rhai strwythurol ac ymdrin â phob agwedd ar reoli perygl llifogydd, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth am lifogydd a gwella dealltwriaeth o faterion llifogydd lleol. Rydym wedi gosod yr holl fesurau a nodir yn y cynllun hwn mewn 4 categori:


- Atal
- Amddiffyn
- Paratoi
- Adfer ac Adolygu

2.3 Cyd-destun Deddfwriaethol

Yn ôl Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009, mae Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (ALLAau) yn gyfrifol am lunio Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLlau) ar gyfer Ardaloedd Perygl Llifogydd Dangosol a nodwyd yn yr Asesiadau Perygl Llifogydd Cychwynnol (APLIC)². Roedd y ddeddfwriaeth hefyd yn gosod cyfrifoldebau statudol i reoli'r gwaith cychwynnol o lunio ac adolygu pob un o'r gofynion (Atodiad 2).

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sydd yn gyfrifol am lunio Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ar lefel basn afonydd ar gyfer cymunedau sydd mewn perygl o lifogydd gan brif afonydd a'r môr. Mae'n ofynnol i'r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol lunio Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer rheoli llifogydd o ddŵr daear, dŵr wyneb a chyrsgiau dŵr cyffredin yn unig.

Roedd y Rheoliadau yn nodi cylch chwe blynedd ynghyd ag amserlenni ar gyfer adrodd i'r Comisiwn Ewropeaidd a chyhoeddi 3 phrif ganlyniad:



Ffigur 1: Amserlen y Rheoliadau Perygl Llifogydd (2009)

2.4 Aseiad Perygl Llifogydd Cychwynnol

Roedd yr Aseiad Perygl Llifogydd Cychwynnol (APLIC) yn ymarferiad sgrinio lefel uchel a oedd yn casglu gwybodaeth am berygl llifogydd lleol sylweddol ar sail llifogydd y gorffennol

² Nodwyd Ardaloedd Perygl Llifogydd Dangosol lle mae mwy na 5,000 o bobl mewn perygl o lifogydd

a'r dyfodol, ac ar sail gwybodaeth a oedd ar gael. Cwmpas yr Asesiad oedd ystyried llifogydd o ddŵr ffo, dŵr daear a chyrsgiau dŵr cyffredin, ac unrhyw gysylltiad rhwng y ffynonellau hyn â phrif afonydd gyda'r nod o nodi ardaloedd sydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd fel y nodwyd yn y Cyfarwyddbau Llifogydd Ewropeaidd (gweler adran 3.3).

2.5 Llunio mapiau perygl llifogydd a mapiau risg llifogydd ar gyfer Ardaloedd Perygl Llifogydd

Yn 2013 lluniwyd a diweddarwyd y Map Llifogydd Dŵr Wyneb gan Asiantaeth yr Amgylchedd, ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol.

Mae'r map a ddiweddarwyd yn llawer gwell na'r mapiau llifogydd dŵr wyneb blaenorol (2008 a 2010), o safbwynt y fethodoleg a'r ffordd y caiff perygl llifogydd ei ddangos. Mae'r Map Llifogydd Dŵr Wyneb a ddiweddarwyd yn asesu'r tebygolrwydd y ceir llifogydd o ganlyniad i ddŵr glaw mewn unrhyw flwyddyn, fel a ganlyn:

- 1 mewn 30 (3%)
- 1 mewn 100 (1%)
- 1 mewn 1000 (0.1%)

Mae'r map a ddiweddarwyd hefyd yn rhoi'r data a ganlyn ar gyfer pob sefyllfa llifogydd:

- Maint
- Dyfnder
- Cyflymder (gan gynnwys cyfeiriad y llif ar y cyflymder uchaf)
- Perygl (fel ffwythiant dyfnder a chyflymder)

Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ffynhonnell y data (h.y. astudiaethau modelu cenedlaethol neu fodelu lleol) a hyder yn allbwn y data.

Mae mapiau ar gyfer ardaloedd yn Nhorfaen ar gael drwy ddilyn y cysylltiad a ganlyn neu chwilio '**Beth yw fy mherygl llifogydd**' a dilyn cysylltiadau gwe Asiantaeth yr Amgylchedd / Cyfoeth Naturiol Cymru:

<http://maps.environment-agency.gov.uk/wiyby/wiybyController?topic=floodmap&layerGroups=default&lang=en&ep=map&scale=7&x=531500&y=181500>

2.6 Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer Ardaloedd Perygl Llifogydd.

Ar hyn o bryd mae CBST yng nghanol cylch cyntaf y Rheoliadau. Y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd yw cam olaf y cylch hwn ac mae disgwyl iddynt gael eu cyhoeddi erbyn mis Rhagfyr 2015.

2.7 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr

Daeth Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i rym ym mis Ebrill 2010 yng Nghymru a Lloegr. Ei nod oedd gweithredu argymhellion Syr Michael Pitt yn dilyn llifogydd eang 2007. Hefyd, bwriadwyd i'r Ddeddf egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Rheoli Risg (ARhR) a chyfrifoldebau statudol sefydledig yr asiantaethau rheoli risg (Atodiad 2).

Yn ôl y Ddeddf, roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, ac i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen lunio Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd (SLRhPLI) a gwblhawyd yn 2011.

Lluniwyd y Strategaethau Lleol er mwyn diffinio pwy yw'r Awdurdodau Rheoli Risg a beth yw eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Datblygwyd y Strategaethau Lleol i gyd-fynd â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Cyn cyhoeddi fersiwn ddrafft y Strategaeth Leol bu'n destun craffu cyhoeddus yn ystod cyfnod ymgynghori cyn ei chyhoeddi'n swyddogol.

3. Ardal yr Astudiaeth

3.1 Ardal Weinyddol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn Awdurdod Unedol yn ne-ddwyrain Cymru. Dynodwyd ardal Pont-y-pŵl a Chwibrân yn ardal perygl llifogydd yn yr Asesiad Perygl Llifogydd Cychwynol (APLIC). Fodd bynnag, mae'r ddogfen hon yn rhoi sylw i berygl llifogydd ar draws yr awdurdod cyfan. Mae tua 92,000 o bobl yn byw yn yr awdurdod ac mae'r ardal yn mesur 125 cilometr sgwâr. Mae ardal ogleddol y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys cwm afon Llwyd a threfi Blaenafon a Phont-y-pŵl. I'r de mae'r dyffryn yn lledaenu i amgylchynu tref Cwibrân. Ardal drefol yw hon yn bennaf ac mae'r economi yn ddibynnol i raddau helaeth ar ddiwydiant ysgafn, twristiaeth a ffermio.

Mae cymunedau prif drefi CBST yn amrywio o dref hynod ddatblygedig Cwibrân a adeiladwyd fel yr unig "Gymuned Newydd" a sefydlwyd yng Nghymru o dan Ddeddf Trefi 1946. Dechreuodd y gwaith yn 1949 a daeth i ben yn 1989. Tyfodd y boblogaeth yn gyflym iawn o 12,000 i'r 47,000 o drigolion presennol, sydd yn cyfrif am hanner poblogaeth y Fwrdeistref Sirol. Sefydlwyd tref Pont-y-pŵl yn 1588 yn sgil y diwydiant cynhyrchu haearn a datblygodd ardal Pontymoile yn faestref i Bont-y-pŵl. Datblygodd y dref yn gyflym ers cyfnod y diwydiant haearn (sector cynradd), a heddiw mae'r dref yn gartref i amgueddfeydd treftadaeth sy'n adrodd hanes y diwydiant wrth i'r sector eilaidd (gweithgynhyrchu) gymryd ei le, gan roi nawdd i boblogaeth o 28,000. Yn olaf, Blaenafon – safle Treftadaeth y byd – tref a dyfodd yn sgil y diwydiannau haearn a glo y gwelir eu holion ar lethrau'r brynau, ar safle 'Pwll Mawr' ac yng ngwaith dur hanesyddol ac amgueddfa'r dref. Amcangyfrifir bod tua 6,000 o bobl yn byw yma. Mae'r 21,000 sy'n weddill yn byw yn y pentrefi bach sydd i'w canfod rhwng y trefi mawr.

Heddiw mae diwydiannau i'w gweld ar draws y Fwrdeistref Sirol: ceir safleoedd mwy i gyfeiriad y de a rhai llai yn y gogledd sy'n amrywio o beirianwaith awyrenegol i gyflenwyr bwyd. Ceir 13 o ystadau masnachol ar draws y Fwrdeistref Sirol ac yn y rhain y cyflogir mwyafrif y boblogaeth sy'n gweithio; lleolir saith ohonynt yng Nghwibrân, pedwar ym Mhont-y-pŵl a dau ym Mlaenafon. Mae'r rhain yn gymysgedd o ddiwydiannau gweithgynhyrchu ysgafn, peirianeg ac ardaloedd mân-werthu.

Ceir sawl math o wasanaethau hanfodol yn y Fwrdeistref ac maent yn amrywio o orsafoedd cludo nwy, is-orsafoedd trydanol, cartrefi gofal, gorsafoedd pwmpio, a gorsafoedd gwasanaethau brys ac ati. Y gwahanol weithredwyr sy'n gweithio yn y Fwrdeistref sy'n berchen ar y safleoedd hyn ac sy'n gyfrifol am eu cynnal.

Mae dalgylch afon Llwyd yn cynnwys 'cwm' uchel nodweddiadol serth a llawr dyffryn sydd wedi ei drefoli i raddau helaeth yn agor allan i wastadedd dyffryn yr afon. Dywedir bod gan afon Llwyd arfer llif 'fflach'. Daw hyn i'r amlwg wrth ystyried nodweddion daearegol, topolegol a threfol y Fwrdeistref, oherwydd prin yw'r cyfle i storio a rhwystro dŵr ar ochrau serth y dyffryn. Golyga hyn fod yr afon yn llenwi wrth i ddyddodiad symud yn gyflym o'r ucheldir i'r iseldir. Oherwydd y cyfuniad hwn o dirwedd yr ardal a'r ddaeareg waelodol, prin yw'r lle i storio dŵr neu lif gwaelodol ac yn ystod hafau sych gall rhai llednentydd sychu'n gyfan gwbl. O fewn y Fwrdeistref rhoddir sawl trwydded tynnu dŵr i fentrau preifat, masnachol a


diwydiannol. Bu datblygiad ym Mlaenafon i ddefnyddio cyfradd llifiant yr afon i gynhyrchu trydan o eneradur trydan dŵr bychan a adeiladwyd ar gyfer yr amgueddfa bywyd gwyllt.

Mae'r ddaeareg lleol yn ddwyochrog: lleolir hanner gorllewinol y Fwrdeistref ym mhen dwyreiniol maes glo de Cymru (MGDC); haenau uchaf, canolig ac isaf yn bresennol (unedau stratigraffig). Cerrig llaid Westffaliaidd o'r grŵp Marros a geir yn y dyffryn dwyreiniol yn bennaf. Ceir haen groesdoriad rhwng gogledd a de'r dyffryn sy'n cynnwys calchfaen carbonifferaidd (Prif Ddyfrhaen) a hyn sydd i gyfrif am y golygfeydd carstig ar waelod y dyffryn. Mae natur topograffeg CBST yn golygu mai prin yw'r lle storio rhwng ochrau'r cwm gan arwain at rhywfaint o berygl o ddŵr wyneb, sydd yn ychwanegu at arfer llif fflach y dŵr wyneb. Fodd bynnag, defnyddiwyd y dechnoleg ddiweddaraf i nodi perygl oherwydd dŵr mwyngloddiau sy'n adlamu o fewn MGDC yn sgil cau holl orsafoedd pwmpio tanddaearol y pyllau a gaewyd. Yn sgil hyn, mae'r pyllau glo wedi llenwi â dŵr unwaith yn rhagor ac ailsefydlu'r lefel trwythiad. Mae'r broses ddirlawnder hon wedi cynyddu dirlawnder y creigwely gan ddatblygu adlam ar yr wyneb. Cofnodwyd y symudiad hwn gan dechnoleg tracio lloeren GPS dros gyfnod o sawl blwyddyn. Mae'r dirlawnder wedi cymryd peth amser i ail-ollwng gan arwain at lai o gapasiti yn y creigwelyau sydd ar gael, a chynyddu'r tebygolrwydd y bydd dŵr yn gollwng o rannau uchaf y Fwrdeistref. Mae'r prif afon, afon Llwyd, yn dilyn trywydd nodweddiadol ar hyd y calchfaen gwaelodol gan olygu mai prin yw'r lle i storio dŵr wyneb.



Ffigur 2: Prif Drefi Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; Blaenafon (Top Chwith), Pont-y-pŵl (Top Dde) a Chwmbrân (Gwaelod).

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yng nghyd-destun Cymru



Ffigur 3: Map yn dangos ffiniau CBS Torfaen, a chyfeiriad at ei leoliad yng nghyd-destun Cymru.

4. Perygl Llifogydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

4.1 Crynodeb o'r mathau o lifogydd a geir yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn agored i lifogydd o wahanol ffynonellau; Afonydd, Glaw/Dŵr wyneb (sy'n cynnwys cyrsiau dŵr cyffredin), Carthffosydd a Dŵr daear. Mae'r perygl o'r mathau hyn o lifogydd yn wahanol, yn dibynnu ar y math o dywydd (dwysedd a pha mor hir bydd yn para), yn ogystal â'r math o bridd, mathau o greigiau a lefel y trefoli.

Caiff llifogydd afonol eu hachosi yn sgil gorlifo'r prif gyrsiau dŵr; yn ardal CBST y brif afon yw afon Llwyd sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de o fewn y Fwrdeistref, hefyd dynodwyd rhan o Nant Dowlais sy'n llifo i afon Llwyd yn brif afon. Cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheoli perygl llifogydd gan Brif Afon. Mae CNC hefyd yn gyfrifol am Gronfeydd Dŵr dros 25,000 metr ciwbig, ond drwy atodlen 2 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 mae hyn ar fin newid i 10,000 metr ciwbig neu fwy.


Mae llifogydd dŵr wyneb yn fwy cyffredin mewn ardaloedd trefol nad ydynt mor amlwg o ddiodeff llifogydd. Mae llifogydd dŵr wyneb yn achosi problemau i awdurdodau lleol oherwydd y diffyg rhybuddion ymlaen llaw. Ni all pobl sy'n darogan y tywydd ragweld yn gywir pryd, ble a faint o law a ddisgwylir yn ystod cyfnodau o dywydd gwael. Mae hyn fel rheol oherwydd natur leol yr ardal fach a gaiff ei heffeithio gan gawodydd trwm ysbeidiol. Ym mis Mai 2014 cafodd tref Cwmbrân ei tharo gan dywydd eithafol lleol a arweiniodd at lifogi 198 eiddo; roedd hyn o ganlyniad i lifogydd dŵr wyneb a waethygydd yn sgil gorlifo cyrsiau dŵr cyffredin.

Yr ymgymwrwr dŵr, sef Dŵr Cymru/Welsh Water (DCWW) sy'n gyfrifol am berygl llifogydd o ddŵr budr a dŵr ffres. Mae'r systemau dŵr budr a dŵr ffres a weithredir gan DCWW wedi'u hadeiladu a'u cynnal yn unol â 'safonau dylunio cyfredol'. Ar hyn o bryd mae DCWW yn adeiladu yn ôl y safonau dylunio a gaiff eu nodi yn 'Sewers for Adoptions', 7fed argraffiad. Fel rheol, caiff llifogydd yn y nodweddion hyn eu hachosi yn sgil cynnydd yn y dŵr a ddaw i mewn i'r systemau gan eu gorlenwi ac achosi'r systemau i ollwng uwchben y ddaear gan arwain at berygl o ddŵr wyneb.

Caiff llifogydd dŵr daear eu hachosi pan fydd y dŵr a gaiff ei storio o fewn haenau athraidd yr is-wyneb yn fwy na'r capasiti storio. Ni chaiff ei weld yn aml ar loriau'r dyffryn ond gall lifo ar y llethrau o ffynhonnau naturiol sy'n cynyddu'r allbwn. Gall llifogydd o'r fath ddigwydd ddyddiau ar ôl y glawriad cyntaf, ac mae'n gyffredin mewn ardaloedd lle ceir dyrhaenau mawr yn y creigwely. Ystyrir maes glo de Cymru yn fân ddyfrhaen ac mae'r calchfaen carbonifferaidd athraidd yn brif ddyfrhaen, ond er gwaethaf y ffaith fod stratigraffeg y ddaear yn caniatáu lefelau uchel o ddŵr daear, mae tirwedd uchel yr ardal yn sianelu'r dŵr daear i loriau'r dyffrynnoedd gan gyfyngu ar y trylifiad a chynyddu'r dŵr wyneb ffo.


Achosir anhawster ychwanegol gan y cystradau glo cleiog uchaf sy'n capio'r calchfaen carbonifferaidd mwy a dyfnach. Cynhaliwyd sawl astudiaeth ganfod arwyddocad hanesyddol llifogydd dŵr daear, a daethpwyd i'r casgliad nad yw dŵr daear fel rheol yn achosi perygl. Fodd bynnag, yn sgil gaeafau mwynach a gwlypach, gellid ailarchwilio'r perygl hwn gan ddefnyddio technoleg i astudio'r ffenomenon yn fwy manwl. Ar hyn o bryd, mae Arolwg Daearegol Prydain (BGS) yn cyhoeddi argraffiadau cyntaf o fapiau sy'n dangos ardaloedd lle ceir rhagueddiad i gael llifogydd dŵr daear ac mae'n datblygu'r cronfeydd data sy'n ategu'r mapiau. Mae'n debygol y bydd y mapiau newydd hyn yn rhan o'r fersiwn nesaf o'r cynlluniau rheoli perygl llifogydd.

Map - Ardaloedd Perygl Llifogydd a gytunwyd yng Nghymru a Lloegr



Ffigwr 4: Manylion yr ardaloedd perygl llifogydd a gytunwyd yng Nghymru a Lloegr, a nodwyd yn yr Aseidiadau Perygl Llifogydd Cychwynnol.

Ardaloedd Perygl Llifogydd Cychwynnol CBS Torfaen



Ffigur 5: Allbwn yr asesiad perygl llifogydd cychwynnol, yn dangos yr ardaloedd perygl llifogydd yn CBST, o Asesiad Perygl Llifogydd Cychwynnol CBS Torfaen, manylion yr Allbwn gan CNC.

4.2 Cymunedau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd dŵr wyneb yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Er mwyn nodi'r perygl o fewn yr awdurdod daethpwyd i'r casgliad y byddai'n ymarferol i rannu'r fwrdeistref yn gymunedau, fodd bynnag roedd yn anodd penderfynu ar ba raddfa y dylid gwneud hyn; Tref, Pentref, Cyngor Cymuned, Ward Etholiadol ac ati. Penderfynwyd defnyddio Wardiau Etholiadol oherwydd lefel y seilwaith sydd eisoes mewn lle. Mae aelodau'r Cyngor a thrigolion yn gyfarwydd â threfniant gofodol yr ardaloedd hyn.

Dynodwyd y cymunedau lle ceir perygl gan y gwaith modelu lefel uwch a wnaed drwy weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau rheoli risg. Roedd canlyniadau'r modelu yn gynhwysfawr, ac wrth benderfynu ym mha gymunedau y ceir perygl llifogydd cafwyd dadansoddiad ystadegol o'r perygl i bobl, gweithgaredd economaidd ac amgylcheddau naturiol a hanesyddol. Darparwyd y cyfrifon cyntaf gan CNC drwy'r mapiau risg llifogydd a luniwyd ar gyfer Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren.

Defnyddiodd CNC ddull tri cham er mwyn cyfrifo'r perygl llifogydd:

- Mae perygl uchel yn golygu fod y tebygolrwydd y bydd llifogydd mewn unrhyw flwyddyn benodol yn fwy nag 1 mewn 30 (3.3%)
- Mae perygl canolig yn golygu fod y tebygolrwydd y bydd llifogydd mewn unrhyw flwyddyn rhwng 1 mewn 100 (1%) ac 1 mewn 30 (3.3%)
- Mae perygl isel yn golygu fod y tebygolrwydd y bydd llifogydd mewn unrhyw flwyddyn rhwng 1 mewn 100 (0.1%) ac 1 mewn 100 (1%)

Tabl yn nodi'r Cyfrifon Perygl a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru a JBA yn 2013

Cyfrifon ar gyfer yr Ardal Perygl Llifogydd				
Perygl i Bobl ac Eiddo	Cyfanswm yn yr ardal ddiffinedig	Cyfrifon Perygl		
		Uchel	Canolig	Isel
Pobl	79,815	340	630	4945
Gwasanaethau	92	0	1	15
Perygl i Weithgaredd Economaidd				
Eiddo amhreswyl	5607	81	112	567
Priffyrdd/Cefnffyrdd (Km)	19	0	0	3
Rheilffyrdd – Prif linell (Km)	13	0	1	1
Tir Amaethyddol Graddau 1-3	911	6	4	15
Perygl i Amgylcheddau Naturiol a Hanesyddol				
Dyfroedd Ymdrochi	0	0	0	0
Safleoedd Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR)	2	1	0	0
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) (ha)	0	0	0	0
Ardaloedd Gwarchod Arbennig (SPA)	0	0	0	0
Safleoedd Ramsar (ha)	0	0	0	0
Safleoedd Treftadaeth y Byd (ha)	0	0	0	0
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig	0	0	0	0
Parciau a Gerddi (ha)	132	3	2	13
Henebion Rhestredig (ha)	38	0	0	0
Adeiladau Rhestredig	164	13	5	10
Mannau Codi Dŵr Trwyddedig	15	3	0	0

Tabl 1: Cyfrifon perygl a wnaed gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac a gafwyd gan JBA Consulting

Mae Tabl 1 yn nodi'r cyfrifon a wnaed ar gyfer y fwrdeistref sirol gan nodi'r perygl yn CBST i bobl, gweithgaredd economaidd ac amgylcheddau naturiol a hanesyddol. Mae'r model hwn ar raddfa fwy ac nid yw'n ystyried materion lleol sydd ynghlwm â pherygl llifogydd. Eto i gyd, mae'n fan cychwyn ar gyfer y cam nesaf ac mae CBST wedi cynnal asesiad o'r perygl llifogydd ar sail dŵr 200mm o ddyfnder ar gyfer y tri chategori o berygl a ddefnyddir gan CNC. Ar ôl ychwanegu'r dyfnder hwn, fe wnaeth CBST ystyried rheoliadau adeiladu presennol gan ymgorffori uchder fframiau drysau yn yr asesiadau; mae 150mm yn ffigur nodweddiadol ar gyfer cyfartaledd uchder ffrâm drws uwchben y tir cyfagos. I gynrychioli'r ffigur hwn, cyflwynwyd byffer 200mm i eiddo er mwyn adlewyrchu'r uchder o 150mm. Gan ddefnyddio'r byffer hwn a dyfnder nodweddiadol, gwnaed y rhagdybiaeth a ganlyn:

'Os caiff 50% neu fwy o berimedr unrhyw eiddo ei wlychu gan y modelau llifogydd gorchuddiol, ystyrir ei fod wedi'i lifogi'n fewnol'

Mae canlyniadau'r dadansoddiad gofodol i'w gweld yn Nhabl 1 sy'n dangos y wardiau unigol a'r cyfrifon wedi'u cyfuno (Eiddo Preswyl, Eiddo Masnachol a Gwasanaethau) yn erbyn y ffactor perygl isaf a fyddai'n cynrychioli'r effaith fwyaf. Dangosir lleoliad gofodol ffiniau'r wardiau yn Atodiad 6. Ceir crynodeb o gynrychiolaeth ofodol y perygl yn Atodiadau 4 – 7. Casglwyd y cyfrifon ar gyfer Pobl drwy ddefnyddio cyfartaledd y boblogaeth fesul annedd, sef 2.35 fesul annedd yn genedlaethol. Cafodd y canlyniadau ar gyfer eiddo preswyl eu lluosio â 2.35 felly i bennu nifer y bobl sydd mewn perygl.

Tabl yn nodi Lefelau Llifogydd Dŵr Wyneb Perygl Isel ar Lefel Wardiau

Perygl i Bobl ac Eiddo	Cyfanswm yn yr ardal ddiffiniedig	Mewn Ardal Perygl Llifogydd (APLI)													
		Abersychan	Brynwern	Coed Efa	Gogledd Croesyceiliog	De Croesyceiliog	Cwmyscoy	Fairwater	GreenMeadow	Liantarnam	Gogledd Lianyrafon	De Lianyrafon	New Inn	Panteg	
Perygl i Bobl		Mewn Ardal Perygl Llifogydd (APLI)													
Pobl	79,815	85	0	55	90	15	90	60	70	265	55	235	130	75	
Eiddo	39,000	36	0	24	37	5	38	26	30	112	23	100	54	31	
Gwasanaethau	92	3	0	1	0	0	0	1	0	5	2	1	3	3	
Perygl i Weithgaredd Economaidd															
Eiddo Amhreswyl	5607	5	0	1	3	3	5	1	0	28	7	4	11	7	
Priffyrdd/Cefnffyrdd (Km)	35.6	2.2	1	0	0	0	1	0	0	1	0	1	0	2	
Rheilffyrdd – Prif linell (Km)	13	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	2	
Tir Amaethyddol Graddau 1-3	19	0	0	0	1	1	0	1	0	1	1	1	1	0	
Perygl i Amgylcheddau Naturiol a Hanesyddol															
Dyfroedd Ymdrochi	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	
Safleoedd Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR)	30	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	
Ardaloedd Gwarchod Arbennig (SPA)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	
Safleoedd Ramsar	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	
Safleoedd Treftadaeth y Byd	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)	4	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0	
Parciau a Gerddi	132	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0	0	0	0	
Henebion Rhestredig	38	2	0	0	0	0	0	0	0	1	0	0	0	0	
Adeiladau Rhestredig	164	2	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	2	2	
Mannau Tynnu Dŵr Trwyddedig	21	2	0	0	0	0	1	0	0	0	0	0	0	0	

Perygl i Bobl ac Eiddo	Cyfanswm yn yr ardal ddiffiniedig	Pontnewydd	Pontnewynydd	Pont-y-pŵl	Snatchwood	St Cadoc's Penygran	St Dials	Trefethin	Two Locks	Cwmbrân Uchaf	Wainfelin	Blaenafon
Perygl i Bobl		Mewn Ardal Perygl Llifogydd (APLI)										Ddim mewn APLI
Pobl	79,815	380	15	80	250	5	110	50	125	45	10	230
Eiddo	39,000	161	6	34	107	1	47	21	52	19	4	96
Gwasanaethau	92	5	1	4	0	0	5	1	2	2	1	5
Perygl i Weithgaredd Economaidd												
Eiddo Amhreswyl	5607	29	42	13	12	0	45	4	6	1	2	50
Priffyrdd/Cefnffyrdd (Km)	35.6	1	0	2	2	0	1	0	0	0	2	2
Rheilffyrdd – Prif linell (Km)	13	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Tir Amaethyddol Graddau 1-3	19	0	0	0	0	0	0	0	1	0	0	0
Perygl i Amgylcheddau Naturiol a Hanesyddol												
Dyfroedd Ymdrochi	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Safleoedd Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR)	30	0	0	0	0	0	1	0	0	0	0	1
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Ardaloedd Gwarchod Arbennig (SPA)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Safleoedd Ramsar	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Safleoedd Treftadaeth y Byd	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)	4	0	0	0	0	0	0	0	1	0	0	1
Parciau a Gerddi	132	0	0	1	0	2	0	0	0	0	0	0
Henebion Rhestredig	38	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	10
Adeiladau Rhestredig	164	1	2	5	0	0	0	2	2	0	0	2
Mannau Tynnu Dŵr Trwyddedig	21	0	0	0	0	0	0	1	0	0	0	3

Tabl 2: Canlyniadau perygl isel y dadansoddiad gofodol, yn dangos y wardiau unigol a'r perygl i Bobl, Gweithgaredd Economaidd, Amgylcheddau Naturiol a Hanesyddol, lluniwyd ar sail y Data a gyflenwyd gan JBA, CNC ac a ddilyswyd gan ddadansoddiad CBST.

Tabl yn nodi lefelau Perygl Llifogydd Dŵr Wyneb lefel Canolig ar lefel Wardiau

Perygl i Bobl ac Eiddo	Cyfanswm yn yr ardal ddiffiniedig	Abersychan	Brynwern	Coed Efa	Gogledd Croesyceiliog	De Croesyceiliog	Cwmynyscoy	Fairwater	GreenMeadow	Llantarnam	Gogledd Llanraffon	De Llanraffon	New Inn	Panteg
Perygl i Bobl		Mewn Ardal Perygl Llifogydd												
Pobl	79,815	15	0	15	15	0	55	15	15	60	10	60	10	5
Eiddo	39,000	6	0	6	6	0	22	5	7	25	4	24	4	2
Gwasanaethau	92	2	0	0	0	0	0	0	0	3	0	0	1	1
Perygl i Weithgaredd Economaidd														
Eiddo Amhreswyl	5607	0	0	0	0	0	3	0	0	5	1	1	3	0
Priffyrdd/Cefnffyrdd (Km)	35.6	1	1	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0	1
Rheilffyrdd – Prif linell (Km)	13	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1
Tir Amaethyddol Graddau 1-3	19	0	0	0	0	0	0	1	0	1	1	1	1	0
Perygl i Amgylcheddau Naturiol a Hanesyddol														
Dyfroedd Ymdrochi	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Safleoedd Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR)	30	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Ardaloedd Gwarchod Arbennig (SPA)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Safleoedd Ramsar	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Safleoedd Treftadaeth y Byd	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)	4	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0
Parciau a Gerddi	132	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0	0	0	0

Henebion Rhestredig	38	2	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Adeiladau Rhestredig	164	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0
Mannau Tynnu Dŵr Trwyddedig	21	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Perygl i Bobl ac Eiddo	Cyfanswm yn yr ardal ddiffiniedig	Pontnewydd	Pontnewynydd	Pont-y-pŵl	Snatchwood	St Cadoc's Penygran	St Dials	Trefethin	Two Locks	Cwmbrân Uchaf	Wainfelin	Blaenafon	
		Mewn Ardal Perygl Llifogydd (APLI)											Ddim mewn APLI
Perygl i Bobl													
Pobl	79,815	120	10	10	5	0	20	10	10	20	5	40	
Eiddo	39,000	51	4	3	2	0	8	4	4	8	1	16	
Gwasanaethau	92	0	1	1	0	0	2	0	0	1	0	1	
Perygl i Weithgaredd Economaidd													
Eiddo Amhreswyl	5607	4	5	1	2	0	15	1	2	1	1	14	
Priffyrdd/Cefnffyrdd (Km)	35.6	1	0	1	1	0	1	0	0	0	0	0	
Rheilffyrdd – Prif Linell (Km)	13	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	
Tir Amaethyddol Graddau 1-3	19	0	0	0	0	0	0	0	1	0	0	0	
Perygl i Amgylcheddau Naturiol a Hanesyddol													
Dyfroedd Ymdrochi	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	
Safleoedd Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR)	30	0	0	0	0	0	1	0	0	0	0	0	
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	
Ardaloedd Gwarchod Arbennig (SPA)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	
Safleoedd Ramsar	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	
Safleoedd Treftadaeth y Byd	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1	
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)	4	0	0	0	0	0	0	0	1	0	0	1	

Parciau a Gerddi	132	0	0	1	0	1	0	0	0	0	0	0	0
Henebion Rhestredig	38	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	9
Adeiladau Rhestredig	164	0	2	1	0	0	0	1	1	0	0	0	2
Mannau Tynnu Dŵr Trwyddedig	21	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1

Tabl 3: Canlyniadau perygl canolig y dadansoddiad gofodol, yn dangos y wardiau unigol a'r perygl i Bobl, Gweithgaredd Economaidd, Amgylcheddau Naturiol a Hanesyddol, lluniwyd ar sail y Data a gyflenwyd gan JBA, CNC ac a ddilyswyd gan ddadansoddiad CBST.

Tabl yn nodi Lefelau Llifogydd Dŵr Wyneb Lefel Uchel ar Lefel Wardiau

Perygl i Bobl ac Eiddo	Cyfanswm yn yr ardal ddiffinedig	Mewn Ardal Perygl Llifogydd												
		Abersychan	Brynwern	Coed Efa	Gogledd Croesyceiliog	De Croesyceiliog	Cwmynyscoy	Fairwater	GreenMeadow	Llantarnam	Gogledd Llanyrafon	De Llanyrafon	New Inn	Panteg
Perygl i Bobl		Mewn Ardal Perygl Llifogydd												
Pobl	79,815	10	0	10	0	0	50	0	10	10	0	20	5	0
Eiddo	39,000	4	0	3	0	0	20	0	3	3	0	9	2	0
Gwasanaethau	92	2	0	0	0	0	0	0	0	2	0	0	1	1
Perygl i Weithgaredd Economaidd		Perygl i Weithgaredd Economaidd												
Eiddo Amhreswyl	5607	0	0	0	0	0	2	0	0	4	0	1	1	0
Priffyrdd/Cefnffyrdd (Km)	35.6	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0	0
Rheilffyrdd – Prif Linell (Km)	13	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Tir Amaethyddol Graddau 1-3	19	0	0	0	0	0	0	1	0	1	1	1	1	0
Perygl i Amgylcheddau Naturiol a Hanesyddol		Perygl i Amgylcheddau Naturiol a Hanesyddol												
Dyfroedd Ymdrochi	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Safleoedd Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR)	30	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Ardaloedd Gwarchod Arbennig (SPA)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Safleoedd Ramsar	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Safleoedd Treftadaeth y Byd	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)	4	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0	0	0	0
Parciau a Gerddi	132	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0	0	0	0
Henebion Rhestredig	38	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Adeiladau Rhestredig	164	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0
Mannau Tynnu Dŵr Trwyddedig	48	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Perygl i Bobl ac Eiddo	Cyfanswm yn yr Ardal ddiffiniedig	Pontnewydd	Pontnewynydd	Pont-y-pŵl	Snatchwood	St Cadoc's Penygran	St Dials	Trefethin	Two Locks	Cwibrân Uchaf	Wainfelin	Blaenafon
Perygl i Bobl	Mewn Ardal Perygl Llifogydd (APLI)											Ddim mewn APLI
Pobl	79,815	75	0	5	5	0	5	0	0	15	0	20
Eiddo	39,000	32	0	2	2	0	1	0	0	6	0	9
Gwasanaethau	92	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0	1
Perygl i Weithgaredd Economaidd												
Eiddo Amhreswyl	5607	0	2	0	1	0	2	1	0	1	0	6
Priffyrdd/Cefnffyrdd (Km)	35.6	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Rheilffyrdd – Prif linell (Km)	13	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Tir Amaethyddol Graddau 1-3	19	0	0	0	0	0	0	0	1	0	0	0
Perygl i Amgylcheddau Natural a Hanesyddol												
Dyfroedd Ymdrochi	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Safleoedd Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR)	30	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Ardaloedd Gwarchod Arbennig (SPA)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Safleoedd Ramsar	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Safleoedd Treftadaeth y Byd	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)	4	0	0	1	0	1	0	0	0	0	0	0
Parciau a Gerddi	132	0	0	1	0	1	0	0	0	0	0	0
Henebion Rhestredig	38	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	7
Adeiladau Rhestredig	164	0	2	0	0	0	0	1	1	0	0	2
Mannau Tynnu Dŵr Trwyddedig	48	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Tabl 4: Canlyniadau perygl uchel y dadansoddiad gofodol, yn dangos y wardiau unigol a'r perygl i Bobl, Gweithgaredd Economaidd, Amgylchoedd Naturiol a Hanesyddol, lluniwyd ar sail Data a gyflenwyd gan JBA, CNC ac a ddilyswyd gan ddadansoddiad CBST.

Mae Tablau 2-4 yn dangos cyfrifon y perygl llifogydd i Bobl, Eiddo, Busnesau a safleoedd Amgylcheddol a Hanesyddol. Mae'r tablau yn amlinellu'r flaenoriaeth o ran perygl drwy nodi'r tri chategori o berygl, uchel, canolig ac isel, fesul Ward. Dengys Tabl 4 mai yn ardaloedd Pontnewydd a Chwmyrnyscoy y mae'r perygl uchaf i Bobl, Eiddo a Busnesau yn ystod storm 3% (1 mewn 30). Ceir perygl isel i seilwaith hanfodol, a safleoedd amgylcheddol a hanesyddol ym mhob un o'r 24 ward yn ystod storm 3%.

Dengys Tabl 3 mai Pontnewydd, Llantarnam, De Llanyrafon a Chwmyrnyscoy yw'r ardaloedd lle ceir y perygl llifogydd mwyaf yn yr APLI a nodwyd. Yr eithriad yn y categori perygl canolig o storm 1% (1 mewn 100) yw ardal Blaenafon. Yn yr APLIC nodwyd mai Cwmbrân a Phont-y-pŵl oedd yr Ardal Perygl Llifogydd; ac eithrio ward Blaenafon. Yn sgil gwaith modelu llifogydd manwl y Map Llifogydd Dŵr Wyneb a Ddiweddarwyd (MLIDWDd), penderfynwyd cynnwys ward Blaenafon yn yr ardal perygl llifogydd a'i hystyried yn ardal perygl sylweddol ar sail Tablau 2, 3.

O ran y categori perygl isaf: storm 0.1% (1 mewn 1000) (Tabl 2), gwelir mai yn wardiau Pontnewydd, Llantarnam, Snatchwood, De Llanyrafon a Blaenafon y mae'r nifer mwyaf o bobl ac eiddo mewn perygl. Ym Mlaenafon, St Dials, Pontnewydd, Llantarnam a Phontnewydd yn unig y ceir perygl i fusnesau. O ran y modelau perygl llifogydd isel, canolig ac uchel, gwelir bod perygl isel i seilwaith hanfodol ac amgylcheddau naturiol a hanesyddol ar draws yr awdurdod gan olygu mai Pobl, Eiddo a busnesau sydd yn wynebu'r perygl mwyaf ac y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt.

5. Sut rydym yn rheoli perygl llifogydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar hyn o bryd

Mae CBST wedi bod yn rheoli'r perygl llifogydd yn yr ardal er sefydlu'r awdurdod yn 1996. Yn dilyn datblygiadau statudol diweddarach, mae CBST wedi datblygu Asesiad Perygl Llifogydd Cychwynnol, Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd (SLRhPLI) ac yn olaf y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd. Lluniwyd y SLRhPLI ar sail pedwar amcan trosfwaol y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (SGRhPLIEA). Ar sail y pedwar amcan hwn, nododd CBST 17 o fesurau a'u mireinio yn 7 ar ôl dod i'r casgliad y byddai eu cyflawni yn arwain at fuddion lluosog. Cafodd y mesurau eu gosod mewn tri chategori o ran amser; tymor byr (0-20 mlynedd), tymor canolig (20-50 mlynedd), tymor hir (50-100 mlynedd).

Roedd Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gosod sawl dyletswydd ar ALILIAu gan gynnwys dyletswydd i weithredu fel a ganlyn :

- Datblygu, cynnal, gweithredu a monitro strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn ardal yr awdurdod.
- Sefydlu a chynnal cofrestr a chofnod o'r strwythurau neu nodweddion sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar berygl llifogydd yn yr ardal.
- Pan ddaw yn ymwybodol o lifogydd yn yr ardal (sy'n cwrdd â throthwyon y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd), rhaid i awdurdod llifogydd lleol arweiniol ymchwilio i'r digwyddiad hwnnw, pan fydd angen a phan fydd yn briodol.

Yn ogystal â hyn mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn rhoi nifer o bwerau caniatáu i ALILIAau, ac maent yn cynnwys:

- Pwerau i wneud gwaith i reoli perygl llifogydd
- Ymchwilio i achosion o lifogydd
- Dynodi strwythurau /nodwedddion sy'n effeithio ar berygl llifogydd
- Gofyn am wybodaeth gan unigolyn mewn cysylltiad â'n swyddogaethau rheoli perygl llifogydd
- Rhoi caniatâd i ddraenio tir yn ôl yr angen o dan Adran 23 o Ddeddf Draenio Tir 1991.
- Pŵer i roi rhybudd i berchnogion tir glannau afonydd ar hyd cyrsiau dŵr cyffredin i wneud gwaith cynnal er mwyn lleihau llifogydd.
- Pŵer i roi rhybudd i unigolion er mwyn atal niwsans mewn perthynas â chwrw dŵr cyffredin lle bo'r niwsans hwnnw yn rhwystr sydd wedi ei adeiladu, codi neu addasu neu unrhyw geuffos a godwyd neu a addaswyd heb ganiatâd ymlaen llaw yn ôl y galw o dan Adran 23 o Ddeddf Draenio Tir 1991.

5.1 Sut rydym yn blaenoriaethu ein gwaith

Caiff y gwaith ei flaenoriaethu ar sail dadansoddiad cost a budd a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru; mae hyn yn ofynnol ar gyfer pob gwaith sy'n fwy na'r gyllideb gynnal. Defnyddir y dadansoddiad cost a budd i benderfynu pa mor addas a chynaliadwy yw prosiectau cyfalaf i leihau perygl. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu nifer o ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried:

- Perygl i fywyd;
- Cynaliadwyedd y gymuned yn y tymor hwy, y dull a ddefnyddir a'r amgylchedd ehangach;
- Effeithiau economaidd, costau a manteision;
- Effeithiau llifogydd ar allu gweithredol y seilwaith hanfodol;
- Effeithiau cymdeithasol, costau a manteision;
- Amllder llifogydd;
- Costau amgylcheddol a'r manteision a fydd yn deillio o'r gwaith;
- Safleoedd priodol eraill sydd ar gael os bydd y gwaith yn effeithio ar gynefinoedd dynodedig;
- Effeithiau ar ein treftadaeth ddiwylliannol ehangach; a
- Manteision lluosog i iechyd a lles pobl.

Wrth gynnal dadansoddiad cost a budd, ystyrir mai'r perygl i fywyd fydd y ffactor pwysicaf wrth flaenoriaethu buddsoddiad. Cafodd y drefn hon ei rhoi mewn lle er mwyn sicrhau cynaliadwyedd rheoli perygl llifogydd ar draws Cymru.

5.2 Gyda phwy rydym yn gweithio i reoli perygl llifogydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Fel y nodwyd, sefydlwyd rheolaeth perygl llifogydd drwy Reoliadau Perygl Llifogydd 2009 ac ategwyd at hyn gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae'r Ddeddf yn cyfeirio at awdurdodau rheoli risg dynodedig sydd â chyfrifoldebau uniongyrchol o ran rheoli perygl llifogydd: dynodwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn Awdurdod Llifogydd Lleol Arweinol gyda chyfrifoldeb am reoli perygl llifogydd o'r ffynonellau a ganlyn:

- 1 Cyrsiau dŵr cyffredin (sef cwrs dŵr nad yw'n ffurfio rhan o brif afon ac yn cynnwys llyn, pwll neu unrhyw ardal arall o ddŵr, sy'n llifo i gwrs dŵr cyffredin).
- 2 Dŵr ffo (sef glaw neu ddŵr arall sydd ar yr wyneb neu'r ddaear nad yw wedi mynd i gwrs dŵr, system ddraenio neu garthffos gyhoeddus).
- 3 Dŵr daear (sef dŵr sydd wedi trylifo i'r ddaear a gall ffurfio pyllau a nentydd tanddaearol a all ollwng uwchben y ddaear ond yn is i lawr y dalgylch).

Mae'r Ddeddf hefyd yn dynodi ymgymerydd dŵr, ac yn ardal CBST mae Dŵr Cymru yn gyfrifol am ddarparu dŵr croyw a thynnu dŵr budr o eiddo; mae Dŵr Cymru yn gyfrifol am berygl llifogydd o bibellau dŵr budr a charthfogydd dŵr storm cyhoeddus. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd weithredol dros llifogydd o brif afonydd, y môr ac erydu arfordirol a chyfrifoldeb i gymryd trosolwg o'r drefn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ar draws Cymru.

Mae gan nifer o awdurdodau rheoli risg eilaidd rwymedigaeth i weithio mewn partneriaeth er mwyn rheoli perygl llifogydd. Yr awdurdodau sy'n gweithredu yn CBST yw: Llywodraeth Cymru (CADW), Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru, Network Rail, Melin Homes, Bron Afon, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, yr Heddlu, Gwasanaethau Ambiwlans Cymru Ymddiriedolaeth Iechyd y GIG, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (ceir mwy o fanylion yn Atodiad 3). Ceir mwy o fanylion am eu prif swyddogaethau ac ardaloedd gweithredu yn Nhabl 5.

Tabl yn Amlinellu Prif Swyddogaethau'r Awdurdodau Rheoli Risg sy'n weithredol o fewn CBST

Awdurdod	Ardal Weithredol	Prif Swyddogaethau
Prif Awdurdodau Rheoli Risg		
Heddlu Gwent	Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen, Caerffili, Blaenau Gwent	Amddiffyn a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd yn ardal weithredol Gwent. Gweithredu'n bennaf drwy ymateb i ddigwyddiadau.
Cyfoeth Naturiol Cymru	Cymru	Y brif swyddogaeth yw sicrhau y caiff amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru eu cynnal, gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy, Merthyr, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg.	Yn gyfrifol am leihau perygl drwy addysg, gorfodaeth ac ymateb. Mae'r gwasanaeth tân yn gweithredu drwy ymateb i ddigwyddiadau.
Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	Cymru	Mae Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn darparu gofal brys a thriniaeth cyn-ysbyty ar draws y Fwrdeistref.
Dŵr Cymru	Cymru	Yn gyfrifol am ddarparu cyflenwad parhaus o ddŵr yfed o ansawdd uchel i dros 3 miliwn o bobl a chludo ymaith, trin a chael gwared â'r dŵr gwastraff a gaiff ei gynhyrchu mewn modd addas.
Awdurdodau Rheoli Risg Eilaidd		
Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan	Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De Powys.	Y brif asiantaeth â chyfrifoldeb dros iechyd a lles trigolion.
Tai Cymunedol Bron Afon	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Yn gyfrifol am dai ynni-effeithlon, fforddiadwy yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gan weithredu fel landlord cyfrifol
Melin Homes	Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Torfaen, Casnewydd a Phowys.	Yn gyfrifol am dai ynni-effeithlon, fforddiadwy yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gan weithredu fel landlord cyfrifol
Network Rail	Yn gweithredu ar draws Cymru a Lloegr	Yn anelu at ddarparu rheilffyrdd diogel, dibynadwy ac effeithlon
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cymru	Yn darparu cyngor a gwasanaethau iechyd cyhoeddus annibynnol a phroffesiynol i amddiffyn a gwella iechyd a lles poblogaeth Cymru.
Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru	De Cymru	Yn gyfrifol am reoli, cynnal a gwella'r traffyrdd, cefnffyrdd a'r asedau cysylltiedg ar draws rhanbarth De Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.
Llywodraeth Cymru	Cymru	Corff gwleidyddol sy'n gyfrifol am ddyrannu cyllid a gosod deddfau datganoledig yng Nghymru

Tabl 5: Yr holl Awdurdodau Rheoli Risg sy'n gweithredu yn ardal CBST.

5.3 Sut y cafodd y CRhPLI hwn ei gydlynu

Datblygwyd y CRhPLI hwn mewn partneriaeth gyda sawl asiantaeth rheoli risg ar draws de-ddwyrain Cymru (CNC, DCWW, Awdurdodau Lleol sy'n bartneriaid), cafodd prif bwyslais yr ymchwil ei gyfarwyddo drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sydd wedi cyfarwyddo'r ALILIAau ar draws de-ddwyrain Cymru drwy Grŵp Rheol Perygl Llifogydd De-ddwyrain Cymru (GRhPLIDDdC). Roedd hyn yn gosod llwyfan i ddatblygu gweithgorau, er mwyn targedu'r dulliau gorau o ran arfer da sydd eu hangen i frw ymlaen yn gywir â chynlluniau rheoli perygl llifogydd, gan ddefnyddio'r datblygiadau technolegol diweddaraf ar yr un pryd i ddatblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r perygl i gymunedau. Cefnogwyd y gwaith ymhellach gan gyfraniad pob ALILIA yn ne-ddwyrain Cymru, ynghyd â chynrychiolwyr Dŵr Cymru, Llywodraeth Leol Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Treialwyd y dull hwn o weithio mewn

partneriaeth gyda grwpiau rhanbarthol, ond Cyfoeth Naturiol Cymru a chwmni JBA Consultancy a ddarparodd y modelau perygl llifogydd risg uchel a ddefnyddiwyd er mwyn datblygu'r mapiau perygl llifogydd a risg llifogydd a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Cafodd y gwaith dadansoddi manwl o'r modelau llifogydd ei wneud gan swyddogion CBST o wahanol adrannau o fewn y Gwasanaethau Cymdogaeth. Wrth asesu'r gwaith hwn, rhoddwyd ystyriaeth i addasrwydd y model o'i gymharu â gwybodaeth leol gyfredol a phrofiadau o lifogydd yn y gorffennol.

5.4 Mesurau sydd eisoes ar waith yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i reoli perygl llifogydd

Mae sawl mesur eisoes ar waith yn ardal CBST i liniaru perygl llifogydd ar draws yr awdurdod. Cynlluniau graddfa fechan nodweddiadol ydynt a'u nod yw lleihau'r effaith ar nifer penodol o eiddo lle ceir hanes sylweddol o lifogydd, sydd yn cyfiawnhau cost a budd ar gyfer y gwaith. Mae'r mesurau hyn yn amrywio o dirlunio mannau gwyrdd, gosod sgriniau brigau/diogelwch a 'dannedd dreigiau' o amgylch ceuffosydd a llwybrau llifogydd trostir dynodedig. Ceir un cynllun mawr i reoli perygl llifogydd yn y Fwrdeistref Sirol: cynlluniwyd pyllau llifogydd y Ddau Loc (Two Locks) i reoli llif y dŵr a lleihau llifogydd ar hyd Nant y Milwr a Nant Dowlais. Adeiladwyd y strwythur hwn gan Gorfforaeth Ddatblygu Cwmbrân ac fe'i mabwysiadwyd gan CBST sydd yn ei gynnal ar hyn o bryd.

Datblygwyd trefn Draenio Priffyrdd i fynd i'r afael â pherygl llifogydd ar y priffyrdd o'r cwlfertau a gyliau. Dilynir trefn benodol i gynnal cwlfertau yn yr achosion hynny lle dynodwyd y cwlfter yn flaenoriaeth o ran perygl, ac mae'r drefn yn cynnwys tri chategori o berygl:

1. Perygl Uchaf, (wedi achosi llifogydd yn y gorffennol)
2. Perygl Canolig (heb achosi llifogydd yn y gorffennol ond gallai achosi llifogydd i eiddo petai'n cael ei flocio)
3. Perygl Isel (heb achosi llifogydd yn y gorffennol ond yn annhebyg o achosi llifogydd i eiddo petai'n cael ei flocio)

Caiff y gwaith draenio ar briffyrdd a fabwysiadwyd ei reoli ar sail perygl; ceir tua 17,500 o ddraeniau gyliau ffyrdd ac mae disgwyl i CBST fabwysiadu systemau ychwanegol. Caiff gyliau ar ffyrdd a gynhelir gan arian cyhoeddus eu harchwilio'n flynyddol a threfnir bod y draeniau hynny sy'n cynnwys malurion (a fyddai'n achosi dŵr i lifo ar y briffordd) yn cael eu glanhau yn ystod y cyfnod hwn. Os canfuir unrhyw ddraeniau gyliau ffyrdd neu bibellau cysylltiedig wedi'u difrodi neu flocio y tu allan i'r cyfnod archwilio blynyddol, ymdrinnir â'r rhain ar sail *ad hoc* ar adeg eu harchwilio, neu pan adroddir amdanynt i'r Awdurdod Priffyrdd, gall hyn gynnwys pibellau wedi'u blocio lle bydd angen tynnu'r rhwystr yn gyfan gwbl a gosod pibell newydd.

Datblygwyd cynlluniau i ymgysylltu â'r gymuned ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru. Lleolir y cynllun yn ne Llanyrafon yng nghanol pentref Ponthir. Nod y cynllun oedd codi ymwybyddiaeth am berygl llifogydd a datblygu rhybuddion am lifogydd ar gyfer yr eiddo sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd o'r afon. Yn fwy diweddar, cafwyd mwy o ymgysylltu mewn perthynas â chyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen am lifogydd; cysylltwyd â thrigolion CBST drwy bapur newydd yr awdurdod 'Llais Torfaen' a gaiff ei ddsbarthu i drigolion yn chwarterol. Roedd yr wybodaeth yn ategu'r cyngor diweddaraf yn ymwneud â thywydd gwael a llifogydd ar wefan yr awdurdod.

<http://www.torfaen.gov.uk/en/CommunityLiving/EmergencyManagement/EmergencyPlannin g-flooding/Flooding.aspx>

6. Cydlynu â Chynllun Rheoli Basn Afon Hafren a Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd Ardal Basn Afon Hafren

Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren

Mae CRhPLI Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi ei gydlynu'n uniongyrchol â Chynllun Rheoli Basn Afon Hafren (CRhBAH) a ddatblygwyd ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Canolbwyntiodd CRhBAH ar amddiffyn, gwella a gwneud defnydd cynaliadwy o amgylchedd y dŵr. Paratowyd y cynllun hwn o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD), sy'n disgwyl i bob gwlad yn yr Undeb Ewropeaidd reoli amgylchedd y dŵr i safonau cyson. Rhaid i bob gwlad:

- Atal dirywiad pellach yn statws ecosystemau dyfrol, eu hamddiffyn a gwella cyflwr ecolegol dyfroedd;
- Amcanu i gyflawni o leiaf statws da ar gyfer yr holl gyrff dŵr erbyn 2015. Lle nad yw hyn yn bosibl ac yn amodol ar y meini prawf a nodwyd yn y gyfarwyddeb, amcanu i ennill statws da erbyn 2021 neu 2027;
- Bodloni gofynion Ardaloedd Gwarchoddedig y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr;
- Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ddŵr fel adnodd naturiol;
- Gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau sy'n dibynnu'n uniongyrchol ar ddŵr;
- Cynyddol leihau neu raddol ddiddymu gollwng llygrydd unigol neu grwpiau o lygryddion sy'n fygythiad sylweddol i'r amgylchedd dyfrol;
- Cynyddol leihau llygru dŵr daear ac atal neu gyfyngu ar fynediad llygryddion;
- Cyfrannu at liniaru effeithiau llifogydd a sychder.

Yng Nghymru, diffygion o ran rheoli perygl llifogydd yw un o'r prif resymau am fethiant corff dŵr i fodloni'r amcanion a bennwyd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Dyna pam y mae'n bwysig sicrhau pan fydd angen gweithredu i reoli perygl llifogydd, y dewisir opsiwn nad yw'n arwain at ddirywiad pellach yn amgylchedd y dŵr ond sydd yn hytrach yn chwilio am gyfleoedd i wella a chyflawni buddion ar y cyd.

Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Basn Afon Hafren

Mae Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Basn Afon Hafren (CRhPLIBAH) yn gosod 13 amcan strategol i reoli perygl llifogydd yn y dalgyllch. Cynlluniwyd yr amcanion yn strategol i ymgorffori egwyddorion cyffredinol y Strategaethau Cenedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r amcanion yn ystyried y ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a effeithir gan berygl llifogydd:


- Rheoli peryglon llifogydd ac erydu arfordirol, gan ystyried anghenion cymunedau, busnesau a'r amgylchedd
- Lleihau nifer y cartrefi sy'n agored i berygl llifogydd
- Datblygu a hyrwyddo gwell dealltwriaeth am berygl llifogydd ac erydu arfordirol a defnyddio hyn i flaenoriaethu buddsoddiad mewn rheoli perygl
- Sicrhau bod buddsoddiad mewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn darparu buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd lle bo'n bosibl
- Targedu adnoddau i leihau perygl llifogydd mewn cymunedau lle ceir y perygl llifogydd uchaf

- Sefydlu cynllun clir a chyson ar gyfer rheoli perygl llifogydd fel y gall cymunedau a busnesau wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â rheoli perygl
- Codi ymwybyddiaeth pobl ac ymgysylltu â hwy ar faterion yn ymwneud â llifogydd ac erydu arfordirol er mwyn eu hannog i weithredu a rheoli'r peryglon maent yn eu hwynebu
- Darparu ymateb effeithiol a pharhaus i ddigwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol
- Gall mwy o gartrefi a busnesau sydd â pherygl uchel o ddiodef llifogydd dderbyn rhybuddion am llifogydd
- Annog cynlluniau ac ymatebion argyfwng i ddigwyddiadau llifogydd i fod yn effeithiol ac annog cymunedau i ymateb yn effeithiol i ragolygon, rhybuddion a chyngor am llifogydd
- Hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau a gweithredu ar y lefel priodol - unigolyn, cymuned, neu gyngor lleol, dalgylch afon, cell arfordirol neu genedlaethol
- Cynnal cyflwr ein hasedau rheoli llifogydd ac erydu arfordirol i'r gofynion neu uwchlaw'r gofynion
- Lleihau'r perygl llifogydd o gronfeydd dŵr i bobl, eiddo, seilwaith a'r amgylchedd.

Wrth ddewis mesurau ar gyfer Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, rhoddwyd ystyriaeth i'r 13 amcan arfaethedig yng Nghynllun Rheoli Perygl Llifogydd Basn Afon Hafren (CRhPLIBAH) i sicrhau bod y dogfennau yn adlewyrchu dulliau rheoli holistaidd a chynlluniau sydd o fudd lluosog. Yn ychwanegol i amcanion CRhPLIBAH, amlinellwyd 22 o fesurau yng Nghynllun Rheoli Perygl Llifogydd CBST sy'n nodi mesurau rheoli perygl llifogydd sydd eisoes ar waith (Atodiad 4). Caiff y rhain eu rheoli yn bennaf drwy fesurau Ataliol a Pharatoi.


Yn yr achosion hynny lle'r oedd cyfle amlwg i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Rheoliadau Perygl Llifogydd, mae CBST wedi ymdrechu i wneud hynny. Mae'r mesurau yn adran 8 yn nodi dull o reoli perygl llifogydd drwy ymgysylltu, hynny yw, gwella cyfathrebu a'r sylfaen wybodaeth i ddatblygu dealltwriaeth. Canlyniad y cynllun hwn fydd newid ymddygiad o fewn cymunedau, gyda'r nod o atal dirywiad pellach yn y cyrsiau dŵr drwy dargedu llygrwyr (h.y. tafwyr sbwriel, tipwyr anghyfreithlon a'r rheini sy'n gollwng heb eu cymeradwyo). Ar yr un pryd, caiff dŵr cynaliadwy ei annog drwy reoli'r tarddiad er mwyn lliniaru effeithiau llifogydd.

Dalgylchoedd Rheoli Ardaloedd Basnau Afonydd Cymru



Ffigwr 6: Ardaloedd Rheoli gweithredol Basnau afonydd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ardal Basn Afon Hafren



Ffigur 7: Ardal Basn Afon Hafren fel y'i diffinnir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asianaeth yr Amgylchedd.

7. Amcanion Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Datblygwyd rheolaeth perygl llifogydd ar lefel genedlaethol a lleol, yn dilyn cyhoeddi Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 a'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth lefel uchel i reoli llifogydd ac erydu arfordirol yn 2011. Cyflwynwyd y strategaeth a ganlyn yn yr adroddiad:

“Lleihau perygl llifogydd yn yr holl ardaloedd a ddynodwyd fel rhai lle ceir perygl sylweddol”

Er mwyn bodloni gofynion y strategaeth, gosododd Llywodraeth Cymru bedwar amcan troswaol (Cymal 2.8 yn y Canllawiau):

1. **Lleihau effeithiau** llifogydd ac erydu arfordirol ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd;
2. **Codi ymwybyddiaeth pobl** o berygl llifogydd ac erydu arfordirol **a'u cynnwys yn yr ymateb** i'r perygl hwnnw;
3. Darparu **ymateb effeithiol a pharhaus** i lifogydd ac erydu arfordirol; a
4. **Blaenoriaethu buddsoddiad** yn y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf.

Yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth Genedlaethol, cyhoeddodd CBST ei Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd sy'n cynnwys amcanion y strategaethau cenedlaethol. Mae 4 amcan cyffredinol y cynllun cenedlaethol yn ystyried y peryglon cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â llifogydd. Mae'r strategaeth leol yn dilyn fframwaith y strategaeth a'r amcanion cenedlaethol ond yn rheoli hyn ar lefel leol, gan gynnwys profiadau llifogydd trostir a mecanwaith draenio i bennu strategaeth leol ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn effeithiol. Gwnaed hyn drwy lunio 17 o amcanion manwl, lleol sy'n bodloni'r strategaeth genedlaethol gyffredinol, ac fe'u cynlluniwyd i reoli perygl llifogydd. Mae Tabl 6 yn nodi sut y mae pob amcan yn seiliedig ar ymarferoldeb cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mabwysiadwyd y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd yn bolisi ffurfiol yn 2011, gan fodloni gofyniad Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

Cafodd yr amcanion sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd (SLRhPLI) eu mabwysiadu'n llawn gan y CRhPLI: y rhain yw amcanion y CRhPLI i reoli perygl llifogydd. Mae'r amcanion a nodwyd yn y SLRhPLI ac a fabwysiadwyd gan y CRhPLI yn cysylltu â'r mesurau manwl a amlinellwyd yn Adran 8 y CRhPLI. Y strategaethau cenedlaethol a lleol cyffredinol yw asgwrn cefn y CRhPLI. Mae'r Asesiadau Amgylcheddol Strategol cychwynnol a ddefnyddiwyd ar gyfer cwmpasu'r SLRhPLI wedi'u mabwysiadu gan y Strategaeth Leol a'r CRhPLI. Ni chafodd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ei adolygu oherwydd cwmpas y ddogfen wreiddiol ac oherwydd i amcanion y Strategaeth Leol gael eu mabwysiadu fel amcanion y CRhPLI i reoli perygl llifogydd.

Asesiad Amgylcheddol Strategol:

<http://www.torfaen.gov.uk/cy/FfyrddTeithioPharcio/FfyrddPriffyrddaPhalmentydd/FfyrddaPhrifFyrdd-Llifogydd-CwteriaCharthffosydd/StrategicEnvironmentalAssessment.aspx>

Amcanion y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd a fabwysiadwyd fel Amcanion y CRhPLI

	Amcan	Cymdeithasol	Economaidd	Amgylcheddol
1	Lleihau perygl i fywyd drwy leihau'r nifer o bobl sy'n agored i berygl llifogydd o ddyfnder a chyflymder arwyddocaol.	√	√	
2	Lleihau tarfu ar y gymuned drwy leihau nifer yr eiddo preswyl a masnachol a gaiff eu heffeithio gan berygl llifogydd.	√	√	
3	Lleihau tarfu ar seilwaith hanfodol neu baratoi cynlluniau i alluogi'r gweithredoedd i barhau.	√	√	
4	Lleihau trallod drwy leihau nifer y bobl sy'n agored i berygl llifogydd.	√	√	
5	Darparu systemau i roi rhybudd cynnar o lifogydd posibl i unigolion a chymunedau.	√	√	
6	Darparu systemau effeithlon ar gyfer rheoli a chynnal a chadw asedau ar yr wyneb.	√	√	
7	Lleihau difrod economaidd	√	√	
8	Lleihau costau rheoli		√	
9	Cyfrannu at ymateb ar ran Torfaen i'r newid yn yr hinsawdd.	√	√	√
10	Amddiffyn a gwella Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SBCN)			√
11	Cyfrannu at gyflenwi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen			√
12	Creu sianeli naturiol a chyrrff dŵr gan wneud yr addasiadau lleiaf			√
13	Amddiffyn a gwella ansawdd dŵr	√		√
14	Darparu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer pob ardal sy'n wynebu perygl llifogydd	√	√	√
15	Sicrhau bod mesurau yn cael eu cynllunio a'u hadeiladu mewn ffordd gynaliadwy		√	√
16	Sicrhau bod CBST yn gweithio mewn partneriaeth gyda phob Partner Rheoli Risg arall ac yn cydweithio gydag Awdurdodau cyfagos	√	√	
17	Sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi ar gyfer gweithredu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd yn gyson, y gellir eu hamddiffyn a'u bod yn destun dadansoddiad cost a budd.		√	

Tabl 6: Manylion yr 17 amcan manwl yn y SLRhPLI a fabwysiadwyd gan y CRhPLI; sy'n bodloni amcanion y Strategaeth Genedlaethol i reoli Ffactorau Cymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol.

8. Sut y bydd CBST yn rheoli perygl llifogydd ar lefel leol

Caiff perygl llifogydd ei reoli ar sail ward gan ddefnyddio cyfanswm y cyfrifon ar gyfer eiddo, eiddo masnachol a gwasanaethau hanfodol i ddyfnder o 0.2m o dan y cyfnod dychwelyd stormydd o 1 mewn 30 (Perygl uchel) Atodiad 7), 1 mewn 100 ((Perygl Canolig) Atodiad 8), 1 mewn 1000 ((Perygl Isel) Atodiad 9) a chaiff y canlyniadau ar y cyd eu dangos ar batrwm gofodol yn Atodiad 10. Caiff y gwaith cynllunio ei gwblhau mewn tri cham gydag amserlenni tymor byr (0-2 flynedd), tymor canolig (0-6 blynedd) a hirdymor (0-12 mlynedd). Pennwyd yr amserlenni hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag oes silff fersiwn gyntaf y CRhPLI ac ar gyfer y cylch 6 blynedd nesaf, gan arwain i gyfnod 12 mlynedd.

Bydd y CRhPLI yn cynnwys 20 mesur i gyflawni'r amcanion a nodwyd yn Nhabl 6. Mae'r mesurau yn gynlluniau ar gyfer y fwrdeistref gyfan a fydd yn blaenoriaethu'r gwaith ar sail yr wybodaeth yn Nhablau 2-4. Eithriwyd tref Blaenafon o'r Asesiad Perygl Llifogydd Cychwynnol ac ni chafodd ei chynnwys yn yr Ardal Perygl Llifogydd a ddiffiniwyd fel 'Cwmbrân a Phont-y-pŵl'. Bydd mesurau 1-20 yn darparu trefn reoli perygl llifogydd ar gyfer yr awdurdod cyfan; oherwydd natur y perygl ymddangosiadol a amlinellwyd gan y modelu llifogydd.

Caiff y mesurau a nodir eu rhoi ar waith gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen mewn partneriaeth gydag awdurdodau rheoli risg, a chymorth cymunedau lleol, er mwyn sicrhau rheolaeth gynaliadwy hirdymor sy'n ymgorffori'r dulliau holistaidd a amlinellwyd yn y Bil Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mesur 1. Rhoi Gwybod i Drigolion sy'n agored i Berygl Llifogydd

Amserlen – 0 – 2 flynedd (tymor byr)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M43

Cynllun

Caiff eiddo preswyl sydd mewn perygl uchel, canolig ac isel o ddiodeff llifogydd wybod beth yw'r perygl drwy broses o ymgysylltu. Bydd tri cham i'r broses hon; bydd y cam cyntaf yn targedu eiddo perygl uchel lle nodwyd bod tebygolrwydd o storm 1 mewn 30 mlynedd i ddyfnder o 200mm. Yn yr ail gam, cysylltir â thrigolion eiddo lle ceir perygl canolig, sef tebygolrwydd o storm 1 mewn 100 mlynedd i ddyfnder o 200mm. Yn ystod y cam olaf, cysylltir â thrigolion eiddo lle ceir perygl isel, sef tebygolrwydd o storm 1 mewn 1000 o flynyddoedd i ddyfnder o 200mm.

Yn ystod y cyfnod ymgysylltu, bydd trigolion yn derbyn manylion am alluoedd seilwaith yr awdurdod ar sail y cyfnod dychwelyd storm perthnasol. Nod y broses ymgysylltu fydd codi ymwybyddiaeth am berygl llifogydd a gwella cydnherthedd personol trigolion. Yn ystod y broses ymgysylltu bydd trigolion yn derbyn mwy o fanylion am fesurau addas y gallant eu cymryd i leihau eu perygl.

Cwblhawyd y cyfrifion o eiddo preswyl fel rhan o'r asesiadau lefel uwch a nodwyd bod 1064 eiddo mewn 23 ward mewn perygl o ddiodeff llifogydd perygl Uchel, Canolig neu Isel i ddyfnder o 0.2m. Aseswyd yr wybodaeth hon ar raddfa pob eiddo, gan arwain at gyfrifion meintioledig.

Er mwyn gweithredu'r cynllun caiff pecyn gwybodaeth ei lunio yn cynnwys manylion cyfrifoldebau'r awdurdodau rheoli risg, a sut orau i gael cyngor am fesurau lleihau perygl llifogydd ar gyfer pob eiddo. Bydd y pecyn hwn yn cynnwys copi o'r perygl llifogydd ar gyfer y ward penodol er mwyn amlygu'r perygl. Caiff hyn ei wneud fesul ward a chynhelir gweithdy hefyd lle bydd swyddogion ar gael i ateb cwestiynau penodol ar gyfer pob ardal.

Buddion

Mae rhoi gwybod i'r trigolion am y perygl llifogydd yn gwella'r berthynas rhwng y trigolion a'r awdurdod; bydd yn galluogi trigolion i ddeall prif swyddogaethau a chyfrifoldebau'r awdurdod a'r asiantaethau rheoli perygl. Yn sgil gwella canfyddiad a chodi ymwybyddiaeth bydd trigolion yn cael amser i baratoi a datblygu cynlluniau llifogydd personol a phrynu offer ataliol.

Mesur 2. Rhoi Gwybod i Fusnesau sy'n agored i Berygl Llifogydd

Amserlen: 0 – 2 flynedd (tymor byr)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M44

Cynllun

Caiff busnesau sydd mewn perygl uchel, canolig ac isel o ddiodeff llifogydd wybod beth yw'r perygl a gyfrifwyd drwy broses ymgysylltu. Bydd tri cham i'r broses hon; bydd y cam cyntaf yn targedu busnesau perygl uchel lle nodwyd bod tebygolrwydd o storm 1 mewn 30 mlynedd i ddyfnder o 200mm. Yn ystod yr ail gam, cysylltir â busnesau lle ceir perygl canolig, sef tebygolrwydd o storm 1 mewn 100 mlynedd i ddyfnder o 200mm. Bydd y cam olaf yn cynnwys cysylltu â busnesau lle ceir perygl isel, sef tebygolrwydd o storm 1 mewn 1000 o flynyddoedd i ddyfnder o 200mm.

Yn ystod y cyfnod ymgysylltu bydd busnesau yn derbyn manylion am alluoedd perthnasol seilwaith yr awdurdod ar sail y cyfnod dychwelyd storm perthnasol. Nod y broses ymgysylltu fydd codi ymwybyddiaeth am berygl llifogydd a gwella cydnerthedd busnesau. Yn ystod y broses ymgysylltu bydd busnesau yn derbyn manylion am fesurau addas y gallant eu cymryd i leihau eu perygl.

Cwblhawyd y cyfrifon o fusnesau fel rhan o'r asesiadau lefel uwch a nodwyd bod 279 o Fusnesau mewn 21 ward mewn perygl o ddiodeff llifogydd yn ystod storm 1 mewn 30 mlynedd i ddyfnder o 200mm.

Er mwyn gweithredu'r cynllun caiff pecyn gwybodaeth ei lunio yn cynnwys manylion cyfrifoldebau'r awdurdodau rheoli risg, a sut orau i gael cyngor am fesurau lleihau perygl llifogydd a pharhad busnes. Bydd y pecyn hwn yn cynnwys copi o'r perygl llifogydd yn yr ardal benodol honno er mwyn amlygu'r perygl. Caiff hyn ei wneud fesul ward a chynhelir gweithdy hefyd lle bydd swyddogion ar gael i ateb cwestiynau penodol ar gyfer pob ardal

Buddion

Mae rhoi gwybod i fusnesau am y perygl llifogydd yn annog rhaglen sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn ymgysylltu gan alluogi busnesau i ddeall prif swyddogaethau a chyfrifoldebau'r awdurdod a'r asiantaethau rheoli risg. Yn sgil gwella canfyddiad a chodi ymwybyddiaeth bydd busnesau yn cael amser i baratoi, gan ddatblygu cynlluniau llifogydd personol, prynu offer ataliol a llunio cynlluniau parhad addas i sicrhau cynaliadwyedd y busnesau.

Mesur 3. Rhoi Gwybod i Wasanaethau Hanfodol sy'n agored i Berygl Llifogydd

Amserlen: 0 – 2 flynedd (tymor byr)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M44

Cynllun

Caiff Gwasanaethau Hanfodol sydd mewn perygl uchel, canolig ac isel o ddiodeff llifogydd wybod beth yw'r perygl a gyfrifwyd drwy broses ymgysylltu. Bydd tri cham i'r broses hon; bydd y cam cyntaf yn targedu gwasanaethau hanfodol perygl uchel lle nodwyd bod tebygolrwydd o storm 1 mewn 30 mlynedd i ddyfnder o 200mm. Yn ystod yr ail gam, cysylltir â gwasanaethau hanfodol lle ceir perygl canolig, sef tebygolrwydd o storm 1 mewn 100 mlynedd i ddyfnder o 200mm. Bydd y cam olaf yn cynnwys cysylltu â gwasanaethau hanfodol lle ceir perygl isel, sef tebygolrwydd o storm 1 mewn 1000 o flynyddoedd i ddyfnder o 200mm.

Yn ystod y cyfnod ymgysylltu rhoddir manylion am alluoedd perthnasol seilwaith yr awdurdod ar sail y cyfnod dychwelyd storm perthnasol. Nod y broses ymgysylltu fydd codi ymwybyddiaeth am berygl llifogydd a gwella cydnerthedd gwasanaethau hanfodol. Yn ystod y cyfnod ymgysylltu bydd gwasanaethau hanfodol yn derbyn manylion am fesurau addas y gallant eu cymryd i leihau eu perygl.

Cwblhawyd y cyfrifon o wasanaethau hanfodol fel rhan o'r asesiadau lefel uwch a nodwyd bod 45 o wasanaethau mewn 17 ward mewn perygl o ddiodeff llifogydd perygl Uchel, Canolig neu Isel i ddyfnder o 200mm. Aseswyd yr wybodaeth hon ar raddfa pob eiddo, gan arwain at gyfrifon meintioledig.

Bydd y cyfnod gweithredu yn cynnwys gweithio ar y cyd gyda gweithredwyr gwasanaethau hanfodol ar draws y fwrdeistref; bydd CBST yn darparu mapiau risg llifogydd a'r perygl cyfatebol i seilwaith y gweithredwyr ac yn cysylltu â nhw i benderfynu a oes cost a budd i gynlluniau partneriaeth.

Buddion

Mae rhoi gwybod i wasanaethau hanfodol am y perygl llifogydd yn gwella'r berthynas rhwng gweithredwyr a'r awdurdod gan alluogi'r gweithredwyr i ddeall prif swyddogaethau a chyfrifoldebau'r awdurdod a'r asiantaethau rheoli risg. Yn sgil gwella canfyddiad a chodi ymwybyddiaeth bydd y gweithredwyr hyn yn cael amser i baratoi, gan ddatblygu cynlluniau llifogydd personol, prynu offer ataliol a llunio cynlluniau parhad addas i sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaethau hanfodol.

Mesur 4. Rhoi Gwybod i Safleoedd Amgylcheddau Naturiol a Hanesyddol sy'n agored i Berygl Llifogydd

Amserlen: 0 – 2 flynedd (tymor byr)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M44

Cynllun

Caiff Safleoedd Amgylcheddau Naturiol a Hanesyddol (SANH) sydd mewn perygl uchel, canolig ac isel o ddiodeff llifogydd wybod beth yw'r perygl a gyfrifwyd drwy broses ymgysylltu. Bydd tri cham i'r broses hon; bydd y cam cyntaf yn targedu SANH perygl uchel lle nodwyd bod tebygolrwydd o storm 1 mewn 30 mlynedd i ddyfnder o 200mm. Yn ystod yr ail gam, cysylltir â SANH lle ceir perygl canolig, sef tebygolrwydd o storm 1 mewn 100 mlynedd i ddyfnder o 200mm. Bydd y cam olaf yn cynnwys cysylltu â SANH lle ceir perygl isel, sef tebygolrwydd o storm 1 mewn 1000 o flynyddoedd i ddyfnder o 200mm.

Yn ystod y cyfnod ymgysylltu rhoddir manylion am alluoedd perthnasol seilwaith yr awdurdod ar sail y cyfnod dychwelyd storm perthnasol. Nod y broses ymgysylltu fydd codi ymwybyddiaeth am berygl llifogydd a gwella cydnerthedd y SANH. Yn ystod y cyfnod ymgysylltu bydd y SANH yn derbyn manylion am fesurau addas y gallant eu cymryd i leihau eu perygl.

Cwblhawyd y cyfrifon o SANH fel rhan o'r asesiadau lefel uwch a nodwyd bod 45 o SANH mewn 17 ward mewn perygl o ddiodeff llifogydd perygl Uchel, Canolig neu Isel i ddyfnder o 200mm. Aseswyd yr wybodaeth hon ar raddfa pob eiddo, gan arwain at gyfrifon cywir.

Bydd y cyfnod gweithredu yn cynnwys gweithio ar y cyd gyda SANH ar draws y fwrdeistref; bydd CBST yn darparu mapiau risg llifogydd a'r perygl cyfatebol i seilwaith gweithredwyr y safleoedd ac yn cysylltu â nhw i benderfynu a oes cost a budd i gynlluniau partneriaeth.

Buddion

Mae rhoi gwybod i SANH am y perygl llifogydd yn gwella'r berthynas rhwng SANH a'r awdurdod gan alluogi'r gweithredwyr i ddeall prif swyddogaethau a chyfrifoldebau'r

awdurdod a'r asiantaethau rheoli risg. Yn sgil gwella canfyddiad a chodi ymwybyddiaeth bydd y gweithredwyr hyn yn cael amser i baratoi, gan ddatblygu cynlluniau llifogydd personol a phrynu offer ataliol.

Mesur 5. Cronfa ddata o Amddiffynfeydd Llifogydd Presennol ac unrhyw Gynlluniau Llifogydd Newydd a ddatblygwyd ar sail Cynlluniau 1-4

Amserlen: 0 – 6 (tymor canolig)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M43, M44

Cynllun

Ar draws CBST, mae mesurau lliniaru perygl eisoes yn eu lle gan rai eiddo, busnesau, seilwaith hanfodol a safleoedd amgylcheddol. Mae ymarferiad cipio data yn mynd rhagddo i nodi ym mhle y ceir seilwaith o'r fath ac i ba raddau y mabwysiadwyd y 4 amcan cyntaf yn yr 'ardaloedd sy'n wynebu perygl'.

Caiff hyn ei wneud ar y cyd â'r 4 amcan cyntaf i fonitro lefelau'r seilwaith sydd eisoes ar gael a bydd hyn yn parhau ar ôl camau olaf y prosiectau er mwyn sicrhau y bydd y gronfa ddata yn parhau i gael ei diweddarau. Adolygir y gronfa ddata hon yn flynyddol i sicrhau bod y data a gasglwyd yn gywir ac y gellir eu trosglwyddo i fersiynau newydd o'r cynllun perygl llifogydd yn y dyfodol.

Buddion

Mantais y drefn hon yw nodi cywirdeb y modelu perygl llifogydd; sicrhau na chaiff eiddo sydd eisoes â mesurau amddiffynnol digonol eu cyfrif yn y dyfodol, sicrhau bod y gwaith o flaenoriaethu strategaethau a chynlluniau'r dyfodol yn rhoi'r cost a budd gorau i drigolion CBST.

Mesur 6. Hybu Cynllun Amddiffyn Lefel Eiddo o fewn yr Awdurdod

Amserlen 0 – 6 (tymor canolig)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M43

Cynllun

Mae amddiffyn lefel eiddo yn ddull sydd eisoes ar gael er mwyn amddiffyn eiddo. Yr amcan fyddai ystyried cymunedau sydd mewn perygl uchel a nodi'r potensial ar gyfer cynnal gweithdai Amddiffyn Lefel Eiddo i ddatblygu cydnerthedd cymunedol. Mae'n debygol y byddai'r gweithdai yn cynnwys asiantaethau ymgynghorol a all ddarparu gwybodaeth arbenigol am gynlluniau amddiffyn lefel eiddo.

Byddai'r cyfnod gweithredu yn dibynnu ar gydweithrediad awdurdodau rheoli risg fel CNC a Dŵr Cymru ac yn cynnwys cwmni ymgynghori cyfryngol perygl llifogydd sy'n arbenigo mewn cynlluniau amddiffyn lefel eiddo er mwyn cynnwys trigolion lleol a rhoi gwybod iddynt am berygl a budd posibl cynlluniau amddiffyn lefel eiddo yn ystod gweithdai a fyddai'n cael eu cynnal ar draws yr awdurdod (1 ym mhob prif dref).

Budd

Os bydd mwy o bobl yn ymuno â chynlluniau amddiffyn lefel eiddo, gall hyn wella cydnerthedd y gymuned yn sylweddol a lleihau'r perygl i drigolion. Byddai'r gweithdai yn galluogi trigolion i gael cyngor arbenigol o'r tu allan i'r cyngor gan weithwyr proffesiynol sy'n arbenigo yn y maes. Os bydd trigolion yn mabwysiadu'r broses hon, bydd modd cynnal mwy o weithdai ar draws y Fwrdeistref gan leihau'r perygl llifogydd yn sylweddol. Nod yr amcan hwn fyddai gwella'r sylfaen wybodaeth o ran pwy sy'n gyfrifol am amddiffyn eiddo drwy'r cyfryngwyr, gan fagu hyder rhwng yr awdurdod a'r trigolion.

Mesur 7. Nodi Cyrsiau Dŵr sy'n achosi Perygl Llifogydd Sylweddol (Tarddiad).

Amserlen: 0 – 2 (tymor byr)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M24

Cynllun

Gellir asesu tarddiad llifogydd drwy gynnal gwaith modelu llifogydd manwl. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i nodi ardaloedd ar gyfer eu harchwilio yn fanylach er mwyn penderfynu pam eu bod yn achosi perygl.

Y broses nodi fydd cam cyntaf yr amcan gan fod yr ardaloedd risg uchel eisoes wedi'u mapio yn ystod y cyfnod modelu wrth ddatblygu'r ddogfen hon. Y cam nesaf fydd archwilio'r ardaloedd perygl uchel sy'n achosi perygl i bedwar grŵp yn y Fwrdeistref (Trigolion, Busnesau, Gwasanaethau hanfodol a SANH). Bydd yr ymchwiliad yn nodi'r ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sydd i gyfrif am y perygl llifogydd. Gellir defnyddio hyn fel offeryn i nodi ardaloedd ar draws CBST a allai fod yn sensitif i newid yn yr hinsawdd gan effeithio ar y perygl llifogydd yn y dyfodol.

Budd

Bydd yr ymchwil hwn yn galluogi'r Fwrdeistref i asesu pa ffactorau sydd i'w cyfrif am y newid o ran perygl llifogydd a pha rai yw'r mwyaf allweddol. Gellir defnyddio'r ymchwil hwn i nodi 'mannau problemus' o fewn y Fwrdeistref a phennu newidiadau yn y dyfodol a allai arwain at ganlyniadau cadarnhaol a negyddol o ran perygl llifogydd. Defnyddir hyn i ddyrannu cyllid i'r ardaloedd sydd mewn perygl ac ardaloedd a fydd o bosibl mewn perygl uchel yn y dyfodol.

Mesur 8. Adolygu Amserlenni Cynnal Asedau Perygl Llifogydd Presennol CBST.

Amserlen: 0 – 12 (Tymor hir)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M24, M53

Cynllun

Cafodd asedau perygl llifogydd CBST eu blaenoriaethu o safbwynt perygl peirianyddol ar sail perygl llifogydd yn y gorffennol a llifogydd posibl yn y dyfodol. Yr amcan yw galluogi CBST i ymchwilio i addasrwydd y blaenoriaethau hyn ar sail tystiolaeth y modelau hydrolegol a ddarparwyd ar gyfer yr adroddiad hwn. Caiff y cwlfertau sydd yn eiddo i CBST ac a gynhelir gan yr awdurdod eu cynnal yn ôl blaenoriaeth, fel a ganlyn:

1. Perygl Uchaf (wedi achosi llifogydd yn y gorffennol)
2. Perygl Canolig (heb achosi llifogydd yn y gorffennol ond gallai achosi llifogydd i eiddo petai'n cael ei flocio)
3. Perygl Isel (heb achosi llifogydd yn y gorffennol ond yn annhebyg o achosi llifogydd i eiddo petai'n cael ei flocio)

Caiff y blaenoriaethau eu hadolygu ac ychwanegir gwybodaeth am berygl llifogydd a ddarparwyd gan ddiwyddiadau llifogydd diweddar a'r wybodaeth ofodol a ddarparwyd gan y modelu hydrolegol a dadansoddiad o 'fannau problemus' y cyrsiau dŵr.

Buddion

Trwy adolygu'r dulliau blaenoriaethu presennol, bydd gan y Fwrdeistref arolwg cynhwysfawr o berygl llifogydd gan yr asedau ffisegol. Aseswyd y blaenoriaethau presennol gan ddefnyddio meini prawf perygl peirianyddol a digwyddiadau llifogydd y gorffennol. Bydd proses gylchol yn cynnig cyfleoedd i gynnwys datblygiadau newydd o ran perygl llifogydd drwy foddelu hydrolegol wedi'i ddiweddarau a chynlluniau lleihau perygl llifogydd a all ddylanwadu ar yr ardaloedd hyn. Bydd y broses adolygu yn galluogi'r awdurdod i gynllunio

ar gyfer newidiadau yn y dyfodol o ran newid yn yr hinsawdd gan sicrhau bod amserlenni cynnal yn cadw'n wastad â'r newidiadau hynny.

Mesur 9. Adolygu Systemau Rheoli Asedau gyda phob Awdurdod Rheoli Risg sy'n gweithredu yn CBST

Amserlen: 0 – 2 (tymor byr)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M24, M53

Cynllun

Adolygu pob awdurdod rheoli risg sy'n gweithredu yn CBST. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar eu seilwaith a'u trefniadau cynnal presennol. Bydd yr adolygiad yn sicrhau bod y gronfa ddata asedau perygl llifogydd a luniwyd gan CBST wedi casglu'r holl wybodaeth am asedau perygl llifogydd yn yr awdurdod.

Amcan cyntaf y cynllun fydd penderfynu pa mor gywir yw'r gronfa ddata o asedau perygl llifogydd a sefydlu dull o groesgyfeirio er mwyn sicrhau cywirdeb y data. Bydd ail gam y cynllun yn canfod pa mor addas yw'r trefniadau cynnal ar draws yr awdurdod. Bydd hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth a bydd yn canfod ym mhle y gall yr awdurdod weithio mewn partneriaeth i sicrhau y caiff yr holl asedau perygl llifogydd eu cynnal a'u cofnodi ar gronfa ddata.

Budd

Budd y cynllun fydd sicrhau bod y data a gesglir gan CBST yn gywir ac wedi'u diweddarau. Bydd awdurdodau rheoli risg yn derbyn rhestr lawn o'r holl asedau a'u gwahanol berchnogion, ynghyd â pholisi ar gyfer eu cynnal. Gellir defnyddio'r rhestr hon i sicrhau bod y gwahanol asiantaethau rheoli risg yn cyfathrebu â'i gilydd. Bydd hyn yn cynnig cyfleoedd i weithio ar y cyd i leihau costau cynnal rhwng yr asiantaethau.

Mesur 10. Gweithio ar y Cyd gydag Awdurdodau Rheoli Risg: Ymgynghori rhwng Awdurdodau ynglŷn â'r Cynllun Rheoli Asedau.

Amserlen 0 – 6 (tymor canolig)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M24

Cynllun

Mae partneriaeth effeithiol rhwng pob awdurdod rheoli risg yn arf hanfodol i ddatblygu adeiladu capasiti o fewn y Fwrdeistref. Y prif ddull o reoli hyn yw drwy feithrin partneriaethau ac annog trafodaethau ar y cyd wrth ddatblygu cynlluniau rheoli asedau. Yr amcan fyddai sefydlu trefn o weithio fesul cam wrth ddatblygu cynlluniau rheoli asedau i sicrhau bod asiantaethau perthnasol yn bresennol yn ystod cyfnodau allweddol datblygiad y cynllun.

Budd

Budd hyn fydd sicrhau bod pob asiantaeth yn cynnal yr asedau perthnasol yn y Fwrdeistref; bydd hyn yn sicrhau bod materion o ran perchenogaeth yn eglur ac wedi'u diffinio er mwyn sicrhau bod gan weithredwyr yr wybodaeth berthnasol o fewn pob adran wrth ymwneud â thrigolion. Bydd y drefn hon yn sicrhau y caiff yr holl bartneriaid eu cynrychioli yn ystod y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau rheoli asedau gan sicrhau bod y cynlluniau yn gweithio'n effeithlon. Gellid rhannu unrhyw fesurau i leihau costau drwy rannu trefniadau cynnal yr asiantaethau er mwyn sicrhau cost a budd i'r bartneriaeth.

Mesur 11. Ymchwilio i'r Posibilrwydd o gael Technoleg a allai ddarparu Diweddariad Amser go iawn o'r Tywydd lleol a Systemau Rhybuddio Cynnar.

Amserlen 0 – 12 (tymor hir)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M41

Cynllun

Byddai'r amcan hwn yn edrych ar waith ymchwil cyfredol i systemau rhybuddio cynnar sydd eisoes ar waith yn y gymuned wyddonol. Y nod fyddai canfod cost a budd cyflwyno'r dechnoleg hon i ardaloedd perygl uchel a fyddai'n rhoi rhybudd cynnar i drigolion fynd ati i gymryd mesurau ataliol. Hefyd, yr amcan fyddai ystyried ffyrdd o wella capasiti gorsafoedd monitro tywydd y rhwydwaith priffyrdd; bydd hyn yn datblygu cofnod lleol o lefelau glaw i ddarogan cyfnodau dychwelyd yn gywir o fewn y Fwrdeistref.

Budd

Byddai systemau rhybuddio cynnar yn y Fwrdeistref yn gallu rhoi digon o amser i drigolion baratoi eu heiddo neu hyd yn oed eu gadael, yn dibynnu ar gryfder y storm. Byddai hyn yn galluogi'r awdurdod i flaenoriaethu'r ymateb yn yr ardaloedd risg uchel yn fwy effeithlon. Gellid defnyddio'r orsaf fonitro tywydd i wella cofnodion glaw lleol. Gellir casglu'r cofnodion glaw a'u defnyddio i ddiweddarau ystadegau dychwelyd presennol a byddai hyn yn rhoi gwaelodlin ar gyfer digwyddiadau storm ar raddfa leol. Byddai unrhyw orsaf dywydd newydd hefyd o fudd i'r gwasanaeth cynnal gaeaf yn yr adran priffyrdd.

Mesur 12. Annog Gweithio mewn Partneriaeth rhwng Grwpiau Cymunedol a Gyfansoddwyd ac Awdurdodau Rheoli Risg.

Amserlen: 0 – 2 (tymor byr)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M43

Cynllun

Gellir defnyddio grwpiau cymunedol a gyfansoddwyd i gyfathrebu gwybodaeth berthnasol yn llwyddiannus rhwng yr awdurdodau rheoli risg a'r trigolion. Nod yr amcan fyddai annog sefydlu grwpiau o'r fath yn yr awdurdod, ar y sail bod y cymorth a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i annog mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng grwpiau sydd â phwyllgorau ffurfiol yn gweithio o fframwaith a gyfansoddwyd i hyrwyddo cydnerthedd o fewn y gymuned. Byddai'r cynllun yn annog sefydlu a threialu'r cynllun hyd nes y byddai modd rhedeg y grŵp yn annibynnol ar yr awdurdod.

Budd

Ar adegau mae grwpiau cymunedol wedi bod yn fentrau llwyddiannus wrth ymdrin â pherygl llifogydd ar draws y Deyrnas Unedig. Byddai grŵp strwythuredig a gyfansoddwyd yn datblygu cydnerthedd y gymuned ac yn galluogi trigolion sy'n barod i weithio gydag awdurdodau i ddatblygu'r wybodaeth angenrheidiol i weithredu grŵp hunangynhaliol. Mae'n debygol y byddai'r bartneriaeth hon yn gwella cyfathrebu rhwng yr awdurdodau a'r trigolion lleol.

Mesur 13. Cymryd rhan yng nghampau Cynllunio datblygiadau newydd, i Gynyddu'r Cyfleoedd ar gyfer Rheoli Tarddiad a Chynlluniau SDCau

Amserlen: 0 – 12 (tymor hir)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M34

Cynllun

Nod y mesur hwn fyddai datblygu'r berthynas waith rhwng yr adrannau ac asiantaethau sydd ynghlwm â'r broses gynllunio ar safleoedd presennol a newydd. Nod y mesur yw nodi'r potensial ar gyfer rheoli tarddiad a seilwaith gwyrdd y gellid eu cynnwys yn nodweddion y dyluniad (SDCau). Gellid defnyddio ysgolion yr 21^{ain} ganrif fel cynllun peilot i sicrhau'r math

gorau o ymgysylltiad rhwng partneriaid cynlluniau, fodd bynnag ni fydd y broses hon yn gyfyngedig i gynllunio ysgolion ond i bob datblygiad yn y dyfodol (Preswyl, Busnes, Gwasanaethau, safleoedd Amgylcheddol) o fewn CBST. Mae'r broses hon eisoes ar waith drwy ddatblygiadau o fewn y Cynlluniau Datblygu Lleol h.y Polisi S3 ac fe'i hamlygir hefyd yn Polisi Cynllunio Cymru 7^{fed} Argraffiad a Nodiadau Cyngor Technegol 15 a 12.

Cyfeiriwyd at syniad ysgolion yr 21^{ain} Ganrif fel cynllun peilot posibl. Byddai'r prosiect yn cael ei gynllunio fel mesur o'r arfer gorau gan amlygu sut y mae CBST wedi addasu i newid yn yr hinsawdd a chynllunio cynaliadwy. Wrth nodi safle enghreifftiol sy'n hyrwyddo'r defnydd o gynlluniau SDCau, gellid dangos fod modd eu defnyddio mewn datblygiadau yn yr ardal leol. Mae menter ysgolion yr 21^{ain} ganrif wedi'i hanelu at yr hirdymor a'r rhaglen buddsoddi cyfalaf gyda'r nod o gyflenwi:

- Amgylcheddau dysgu a gynlluniwyd i wella deilliannau addysgol
- Mwy o economi ac effeithlondeb ar gyfer amgylcheddau dysgu drwy reoli adnoddau
- System addysg gynaliadwy sy'n bodloni safonau adeiladu ac yn lleihau costau rheolaidd

Budd

Trwy ddefnyddio rhaglen buddsoddi cyfalaf sydd eisoes yn ei lle gellid datblygu gwell cydnherthedd yn seilwaith cychwynnol adeiladau. Mae potensial i ddatblygu asedau ecolegol o fewn yr eiddo a fyddai'n annog addysgu am gynaliadwyedd amgylcheddol gan ddatblygu mentrau lleihau perygl llifogydd ar draws y safle ar yr un pryd. Byddai hyn yn lleihau'r effaith ar yr ardal gyfagos ac yn lleihau effaith llifogydd yn yr ysgolion. Yn sgil y cynllun peilot hwn, byddai gan yr awdurdod safle enghreifftiol y gellid ei ddefnyddio er mwyn dangos i ddatblygwyr yr arferion gorau ar waith a sut y gellid eu defnyddio yn yr ardal leol.

Mesur 14. Datblygu Gweithdai Addysg mewn Ysgolion

Amserlen: 0 – 6 (tymor canolig)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M43

Cynllun

Byddai gweithdai addysg yn targedu'r ysgolion lle mae dalgylchoedd y disgyllion o fewn ardaloedd risg uchel. Amcan y cynllun fyddai ehangu gwybodaeth am berygl llifogydd yn y gymuned, gan ddatblygu gwybodaeth am lwybrau llifogydd presennol a allai achosi perygl i iechyd yn ystod cyfnodau o law trwm. Byddai'r cynllun hwn yn targedu'r Cydlynwyr Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ESDGC) yn yr ysgolion.

Budd

Trwy wella gwybodaeth ac ymgysylltiad y cenedlaethau iau gellir datblygu cynllun cydnherthedd llifogydd 'o'r gwaelod i fyny' lle gall gwybodaeth drosglwyddo o fewn teuluoedd. Mae sawl mesur lliniaru llifogydd mewn lle sy'n caniatáu i gyrsiau dŵr sydd wedi torri dros y top gael mynediad i lwybr dynodedig trostirol cyn llifo'n ôl i'r cwrs dŵr. Trwy roi gwybodaeth i'r cenedlaethau iau am y manau risg hyn, gellir datblygu cydnherthedd ac ymwybyddiaeth gymunedol yn ystod digwyddiad. Mae'n debygol y ceir budd hefyd i ddatblygu newid agwedd at reolaeth amgylcheddol yn y gymuned gan annog cenedlaethau iau i gymryd cyfrifoldeb dros yr amgylchedd ar yr un pryd.

Mesur 15. Archwiliadau o Asedau Lleihau Llifogydd.

Amserlen: 0 – 2 (tymor byr)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M24

Cynllun

Datblygu archwiliad o'r strwythurau gan swyddogion yn ychwanegol at y trefniadau cynnal rheolaidd. Bydd hyn yn ychwanegol at yr archwiliadau rheolaidd a gaiff eu gwneud gan weithwyr. Y nod fydd sicrhau cynaliadwyedd asedau lleihau llifogydd yn y tymor hir. Caiff archwiliadau manwl eu cynnal i ganfod a oes angen unrhyw waith i gynnal y strwythur neu nodwedd. Bydd hyn hefyd yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r ardal a fyddai'n cyfrannu'n negyddol neu'n gadarnhaol at y perygl llifogydd.

Budd

Trefniadau archwilio ychwanegol blynyddol er mwyn sicrhau y caiff yr asedau perthnasol i leihau llifogydd eu cynnal yn ddigonol. Wrth gynnal archwiliadau ychwanegol, byddir yn ystyried y newidiadau yn yr ardal gyfagos a allai effeithio ar y perygl llifogydd; a allai arwain at fwy o waith cynnal neu fesurau ychwanegol, neu leihau gwaith cynnal a thynnu'r ased yn gyfan gwbl.

Mesur 16. Adolygu Cynlluniau Argyfwng Presennol yr Awdurdodau Rheoli Risg

Amserlen: 0 – 12 (tymor hir)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M42, M53

Cynllun

Adolygu cynlluniau argyfwng presennol yr awdurdodau rheoli risg; bydd angen mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng yr asiantaethau er mwyn sicrhau bod gan bob awdurdod y capasiti i ymateb i lifogydd. Caiff cynllunio ar y lefel hwn ei reoli gan Fforwm Cydnerthedd Lleol Gwent. Ar hyn o bryd mae'r fforwm yn adolygu a phrofi cynlluniau presennol yn rheolaidd. Rhoddir ystyriaeth i'r modelu llifogydd a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r ddogfen hon wrth adolygu'r cynlluniau er mwyn sicrhau'r lefel uchaf o gywirdeb.

Budd

Bydd y broses adolygu yn elwa yn sgil ystyried y modelu diweddaraf sydd yn seiliedig ar raddfeydd lefel eiddo. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Fforwm Cydnerthedd Lleol Gwent ddatblygu ymhellach dulliau gweithio mewn partneriaeth rhwng y chwe asiantaeth rheoli risg; drwy adolygu'r cynlluniau presennol yn erbyn y modelau a ddiweddarwyd, er mwyn nodi'r ardaloedd perygl uchel yn gywir.

Mesur 17. Datblygu ymarferiad i Brofi Galluedd Ymatebwyr CBST

Amserlen: 0 – 12 (tymor hir)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M42

Cynllun

Bydd yr amcan hwn yn sefydlu ymarferiad dilysrwydd er mwyn sicrhau addasrwydd cynlluniau ymateb presennol a ddaw i rym yn ystod llifogydd. Byddai'r broses brofi yn defnyddio'r cyfrifon newydd ar gyfer eiddo sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd er mwyn adlewyrchu'r ddealltwriaeth bresennol o ardaloedd sydd mewn perygl yn y fwrdeistref sirol yn ogystal â gwybodaeth am lifogydd yn y gorffennol.

Budd

Budd yr ymarferiad hwn fyddai galluogi'r gwasanaethau rheng-flaen sy'n ymateb i lifogydd i gyfarwyddo â modelau allbwn presennol. Byddai'r ymarferiad yn defnyddio'r canlyniadau modelu presennol a digwyddiadau'r gorffennol i gynrychioli sefyllfa llifogydd realistig gan baratoi'r timau i ymateb mor effeithlon â phosibl. Byddai'n galluogi adolygiad o'r gweithdrefnau a pholisïau presennol ar gyfer ymateb i lifogydd gan sicrhau eu bod yn addas.

Mesur 18. Datblygu a Chynnal Cronfa Ddata ar gyfer Seilwaith Gwyrdd

Amserlen: 0 – 2 (tymor byr)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M24

Cynllun

Caiff y gwaith o ddatblygu cronfa ddata o'r seilwaith gwyrdd presennol a nodweddion SDCau ei wneud drwy ymarferiad casglu gwybodaeth o fewn adrannau CBST. Sefydlir polisi a fydd yn sicrhau bod pob datblygiad newydd sy'n cynnig seilwaith gwyrdd yn adrodd am hyn i'r adran berthnasol at ddibenion cipio data.

Budd

Trwy ddatblygu cronfa ddata o seilwaith gwyrdd presennol bydd yn bosibl i'r awdurdod gynnwys hyn mewn fersiynau newydd o'r cynllun rheoli perygl llifogydd yn y dyfodol. Bydd yn bosibl defnyddio'r data i ddadansoddi'r dylanwad a gaiff y mesurau hyn ar y perygl llifogydd presennol. Trwy ddiweddarau'r gofrestr bydd modd sicrhau y caiff trefniadau storio o fewn yr awdurdod eu cofnodi'n gywir.

Mesur 19. Adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol ynglŷn ag Allbynnau Modelu Perygl Llifogydd

Amserlen: 0 – 12 (tymor hir)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M21

Cynllun

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys system gynllunio gynaliadwy sy'n ymgorffori dulliau o reoli dŵr yn y fan lle mae'n tarddu a dyluniadau SDCau i ddatblygu cymuned gydnerthol sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd hirdymor a hyfedredd ecolegol. Caiff yr amcanion sylfaenol hyn eu hymgorffori yn y CDLI presennol ym mholisi S3 a pholisïau troswaol Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol 12, 15.

Ar sail y modelu hydrolegol, datblygwyd asesiad o'r perygl llifogydd risg uchel. Mae'r allbynnau yn llawer manylach na'r modelau llifogydd a ddefnyddiwyd yn Nodyn Cyngor Technegol 15 a gellid eu hymgorffori yn y cynllun datblygu lleol yn ystod y cam adolygu. Bydd hyn yn sicrhau bod y data ynghylch y perygl llifogydd yn gywir ac y caiff cynlluniau addas eu datblygu a'u hadolygu, i ardystio cynllun datblygu lleol cynaliadwy sy'n lleihau perygl llifogydd. Cyn y cyfnod adolygu cychwynnol, caiff ymarferiad rhannu data ei sefydlu rhwng awdurdodau perthnasol o fewn yr awdurdod i sicrhau y bydd y mapiau risg llifogydd diweddaraf a mwyaf cywir ar gael wrth wneud penderfyniadau.

Budd

Mae cynlluniau datblygu lleol yn nodi mentrau datblygu hirdymor gyda'r nod o ddatblygu cymuned gynaliadwy sy'n ehangu, a galluogi eiddo preswyl a masnachol i ddatblygu yn CBST. Yn sgil casglu mwy o dystiolaeth ynghylch perygl llifogydd, bydd modd i gynllunwyr nodi perygl yn fwy effeithiol. Trwy gynnwys gwybodaeth am berygl llifogydd lefel uchel yng nghamau cynllunio'r dyfodol bydd modd archwilio contractau datblygu tai yn fwy cywir i sicrhau y caiff mesurau capasiti a chydnerthedd eu hymgorffori yn nyluniad sylfaenol y prosiectau i greu rhaglen gydnerthedd ragweithiol.

Mesur 20. Archwilio'r Galw am Waith Peirianyddol a'i Gynaliadwyedd.

Amserlen: 0 – 12 (tymor hir)

Cod Adrodd Ewropeaidd: M32, M33

Cynllun

Bydd yr amcan hwn yn ystyried pa mor addas yw gwaith peirianyddol a chynaliadwyedd hirdymor a chost a budd cynlluniau o'r fath. Nod y cynllun fydd datblygu gwaith peirianyddol i leihau perygl llifogydd yn y mannau hynny lle mae'r awdurdod a thrigolion eisoes wedi archwilio pob dull arall o liniaru perygl llifogydd, a phan fydd y dadansoddiad cost a budd yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru. Dim ond wedyn y bydd yr awdurdod yn gwneud unrhyw waith peirianyddol o'r fath.

Mae'r awdurdod yn ystyried atebion peirianyddol fel ateb olaf i liniaru perygl llifogydd. Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn ystyried y gellir eu defnyddio fel rhan o ddull gweithredu integredig i reoli perygl llifogydd. Bwriad y ddogfen hon yw ailgyfeirio'r dull o reoli perygl llifogydd o fewn CBST drwy gynllunio cynaliadwy a gwaith paratoi rhagweithiol. At ei gilydd, mae gwaith peirianyddol i liniaru perygl llifogydd yn gostus iawn. Mae'r awdurdod wedi nodi mai bach iawn yw'r cost a budd ar gyfer cynnal gwaith ar raddfa fawr pan fo buddion lluosog i ymgysylltu â'r cyhoedd a chreu cymuned gynaliadwy a chydnerth sy'n barod ar gyfer llifogydd.

Budd

Bydd yr awdurdod yn ystyried gwaith peirianyddol pan fydd angen er mwyn lleihau perygl llifogydd i eiddo; ar ôl ystyried pob dull arall o liniaru perygl llifogydd, a phan fodlonir y gofynion o ran cost a budd. Budd y drefn hon fydd sicrhau bod unrhyw fesurau naturiol i leihau perygl yn cael eu rhoi ar waith i leihau cost gwaith peirianyddol graddfa fawr sy'n atal newid i'r hydrodynameg a sefydlogrwydd ecolegol y cyrsiau dŵr. Yn ychwanegol at hyn, daw budd o'r gallu i gynllunio'n gywir a chofnodi'r datblygiad o'r cynigion i'r cynnyrch gorffenedig gan sicrhau y bydd cipio data yn parhau.

9. Cydlynu â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Mae CBST wedi nodi 20 o fesurau i fodloni pedwar amcan trosfwaol y strategaethau lleol a chenedlaethol, gan eu gosod yn erbyn ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i greu cynllun hollataidd ar gyfer yr awdurdod. Mae Tabl 7 yn nodi amcanion y cynllun sy'n bodloni pedwar amcan trosfwaol y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Cafodd 4 amcan trosfwaol y strategaeth genedlaethol eu hystyried gan y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd a nodwyd 17 amcan manwl, gweler Tabl 6. Dangosir y berthynas rhwng y strategaeth leol a'r CRhPLI yn Atodiad 5 sy'n nodi pa fesurau yn y CRhPLI a gynlluniwyd i weithredu'r mesurau strategaethol a amlinellwyd yn y Strategaeth Leol.

Yn sgil cyflawni mesurau'r CRhPLI, a nodir yn Adran 8, daw manteision penodol o ran gweithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a amlinellir yng Nghynllun Rheoli Basn Afon Hafren. Yn benodol, mesurau 10, 11, 12 ac 13; bydd mesurau 10 ac 12 yn bodloni'r gofyniad i wella gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau rheoli risg a grwpiau cymunedol a gyfansodwyd. Bydd trosglwyddo gwybodaeth ar lefel leol a dalgyll yn datblygu a gwella'r broses o flaenoriaethu gwaith yn yr ardaloedd perygl uchel. Nod mesur 11 yw rhoi system rhybuddio cynnar cyson a hyfyw ar waith ar gyfer cyrsiau dŵr cyffredin sy'n dioddef llifogydd yn sgil glaw. Mae rhybuddion ymlaen llaw yn galluogi cymunedau i roi cynlluniau llifogydd ar waith er mwyn lliniaru effaith llifogydd. Bydd mesur 13 yn arwain at reoli dŵr yn y fan lle mae'n tarddu drwy ddefnyddio SDcau, gan roi buddion o ran capasiti'r draeniau ac amser oedi o fewn yr awdurdod ynghyd â hidlo llif trosglwyddol a fydd yn golygu y bydd llai o lygredd yn cyrraedd y cyrsiau dŵr. Trwy gyflawni'r 20 mesur hwn byddir yn sicrhau cynaliadwyedd

holistaidd hirdymor a'r potensial i gyflenwi buddion lluosog a fydd yn cefnogi lles cenedlaethau'r dyfodol a'r gyfarwydddeb fframwaith dŵr.

Cynlluniau Perygl Llifogydd Torfaen yn erbyn pedwar amcan trosfwaol y Strategaeth Genedlaethol

Amcanion rheoli y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol

Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd	Amserlen	Lleihau effeithiau	Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu	Ymateb Parhaus	Blaenoriaethu	Rheoli Perygl; Atal, Amddiffyn, Paratoi, Adfer ac Adolygu
Rhoi gwybod i Drigolion os bydd Perygl Llifogydd	Byr	✓	✓	✓	✓	Paratoi
Rhoi gwybod i Fusnesau os bydd Perygl Llifogydd	Byr	✓	✓	✓	✓	Paratoi
Rhoi gwybod i Wasanaethau Hanfodol os bydd Llifogydd	Byr	✓	✓	✓	✓	Paratoi
Rhoi gwybod i'r Safleoedd Amgylchedd Naturiol a Hanesyddol os bydd Perygl Llifogydd	Byr	✓	✓	✓	✓	Paratoi
Cronfa ddata o Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac unrhyw Gynlluniau Llifogydd Newydd a ddatblygwyd o Gynlluniau 1-4	Canolig	✓	✓	✓	✓	Paratoi
Annog Cynllun Amddiffyn Lefel Eiddo o fewn yr Awdurdod	Canolig	✓	✓	✓	✓	Paratoi
Nodi Cwrs Dŵr sy'n achosi Perygl Llifogydd Sylweddol (Tarddiad)	Byr	✓		✓	✓	Atal
Adolygu Amserlenni Cynnal Asedau Perygl Llifogydd Presennol CBST.	Hir	✓		✓	✓	Atal / Adfer ac Adolygu
Adolygu Systemau Rheoli Asedau yr holl Awdurdodau Rheoli Risg sy'n gweithredu yn CBST	Byr	✓		✓	✓	Atal / Adfer ac Adolygu
Gweithio ar y cyd ag Awdurdodau Rheoli Risg: Ymgynghori rhwng Awdurdodau ynghylch y Cynllun Rheoli Asedau.	Canolig	✓		✓	✓	Atal
Ymchwilio i'r Potensial i ddefnyddio Technoleg a allai gynnig diweddariad amser go iawn o'r Tywydd Lleol a Systemau Rhybuddio Cynnar.	Hir	✓		✓	✓	Paratoi

Cynlluniau Perygl Llifogydd Torfaen yn erbyn pedwar amcan trosfwaol y Strategaeth Genedlaethol (parhad)

Cynlluniau rheoli Perygl Llifogydd	Amserlen	Lleihau effeithiau	Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu	Ymateb Parhaus	Blaenoriaethu	Rheoli Perygl; Atal, Amddiffyn, Paratoi, Adfer ac Adolygu
Annog Gweithio mewn Partneriaeth rhwng Grwpiau Cymunedol a Gyfansoddwyd ac Awdurdodau Rheoli Risg.	Byr	✓	✓	✓	✓	Paratoi
Cymryd rhan yn ystod camau cynllunio datblygiadau newydd, er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i reoli Tarddiad y dŵr a Chynlluniau SDCau	Hir	✓		✓		Amddiffyn
Datblygu Gweithdai Addysg mewn Ysgolion.	Canolig	✓	✓	✓	✓	Paratoi
Archwiliad o Asedau Lleihau Llifogydd.	Byr	✓		✓	✓	Paratoi
Adolygu Cynlluniau Argyfwng Presennol yr Awdurdodau Rheoli Risg.	Hir	✓		✓		Atal / Adfer ac Adolygu
Datblygu ymarferiad i Brofi Gallu Ymatebwyr CBST.	Byr	✓		✓		Paratoi
Datblygu a Chynnal Cronfa Ddata ar gyfer Seilwaith Gwyrdd.	Byr	✓		✓	✓	Atal
Diweddarau Cynlluniau Datblygu Lleol ar sail Canlyniadau Modelu Perygl Llifogydd.	Hir	✓	✓	✓	✓	Atal
Archwilio'r Angen am Waith Peirianyddol a'i Gynaliadwyedd.	Hir	✓		✓		Amddiffyn

Tabl 7: Cynlluniau rheoli perygl llifogydd yn erbyn pedwar amcan trosfwaol y Strategaeth Genedlaethol

9.1 Casgliadau'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd


Cafodd y cynlluniau a nodir yn y ddogfen hon eu seilio ar strategaethau cenedlaethol a lleol i adlewyrchu gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo ar draws yr awdurdod i reoli perygl llifogydd. Nod y cynlluniau (Tabl 5) yw datblygu ymwybyddiaeth y trigolion am lifogydd drwy wella eu dealltwriaeth o'r perygl. Mae'r broses hon yn gofyn am archwiliad trylwyr o'r wybodaeth am hydrodynameg lleol, ac adlewyrchir hyn yng nghanau cyntaf y cynlluniau; caiff yr ymarferion casglu gwybodaeth eu defnyddio i gefnogi'r cyfnodau ymgysylltu er mwyn pwysleisio'r angen i drigolion a busnesau amddiffyn a pharatoi. Adolygir unrhyw ddatblygiadau ym maes rheoli perygl yn barhaus a'u cofnodi a'u cymhwyso i flaenoriaethu gwaith yn y dyfodol.

Yn y gorffennol, bu'n anodd adnabod a rheoli effeithiau 'Newid yn yr Hinsawdd' ond yn sgil cyhoeddiad y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd: arolwg pumed asesiad (IPCC) sy'n cadarnhau fod sicrwydd o 99.9% mai pobl sy'n gwaethygu newidiadau naturiol yn yr hinsawdd, heb os mae angen rhoi sylw difrifol i'r mater. Rhagwelir y bydd newid yn yr hinsawdd yn arwain at hafau cynhesach a sychach, gaeafau mwynach a gwlypach, a digwyddiadau tywydd mwy eithafol yn amlach, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf. Cofnodwyd y newid hwn yn yr hinsawdd bob blwyddyn wrth i ddigwyddiadau eithafol effeithio ar Ewrop a'r Deyrnas Unedig yn amlach o lawer (2002 Donwy (Danube) ac Elbe, 2004 Boscastle, 2007 Swydd Caerloyw, 2013/14 llifogydd ar draws y Deyrnas Unedig). Mae'r cynlluniau a nodir yn yr adroddiad hwn yn ceisio gosod gwaelodlin ar gyfer perygl llifogydd a datblygu'r wybodaeth sydd yn ymwneud â phob agwedd ar berygl llifogydd a mecanwaith llifogydd. Bydd hyn yn cynnwys cyfraniad llawn gan bob Awdurdod Rheoli Risg, trigolion a busnesau. Diolch i'w cyfraniad hwy, gall CBST reoli'r perygl llifogydd newidiol yn fwy cynaliadwy ac economaidd, gan wella ôl-troed carbon yn awdurdod ar yr un pryd drwy gynnal bioamrywiaeth.

Nod y CRhPLI yw lleihau nifer yr eiddo, busnesau, gwasanaethau hanfodol a'r amgylcheddau naturiol a hanesyddol sydd mewn perygl oherwydd llifogydd. Gellir cyflawni hyn os gall yr awdurdod gyfathrebu'r cyfrifoldeb dros berygl llifogydd ac amddiffyn rhag llifogydd i bawb sydd mewn perygl. Fel yr ALILIA a'r awdurdod Priffyrdd, mae gan CBST gyfrifoldeb i sicrhau bod y rhwydwaith draenio tir yn gweithio'n ddigonol (systemau dŵr wyneb) a'r asedau perygl llifogydd o fewn Cyrsiau Dŵr Cyffredin (Cwlfertau, Pontydd) ar draws y Fwrdeistref Sirol. Nid yw'r rhwydwaith draenio tir yn amddiffynfa rhag llifogydd – adeiladwyd y rhwydwaith i ddraenio'r priffyrdd nid amddiffyn eiddo. Dyluniwyd yr asedau perygl llifogydd mewn cyrsiau dŵr cyffredin yn unol â'r safonau dylunio ar y pryd, ac er bod amddiffynfeydd rhag llifogydd yn eu lle i leihau perygl (sgriniau brigau, 'dannedd dreigiau'), cafodd y rhain eu dylunio ar gyfer cyfnodau storm 1 mewn 100, +20% ar gyfer newid yn yr hinsawdd yn seiliedig ar foddelu hydrolegol penodol 'ar y pryd' (Llawlyfr amcangyfrif llifogydd). Yn y dyfodol, defnyddir amddiffynfeydd peirianyddol dim ond ar ôl ystyried yr holl ddewisiadau eraill ar gyfer lleihau perygl llifogydd a lle ceir perygl llifogydd sylweddol sy'n cefnogi dadansoddiad cost-budd ar gyfer yr ardal.

Mae'r fersiwn cyntaf o'r CRhPLI yn canolbwyntio ar nodi'r gwaelodlin i reoli perygl llifogydd dros gyfnod hwy. Bydd y cynlluniau sydd yn eu lle yn dwyn ynghyd gwybodaeth o'r fwrdeistref gyfan er mwyn nodi'n effeithiol pa mor addas yw modelu hydrolegol presennol a nodi ardaloedd lle gellir gwella perygl llifogydd mewn modd cynaliadwy gan gynnal arwyddocad ecolegol yr amgylchedd. Bydd y ddogfen hon yn mynd law yn llaw â Chynllun Rheoli Basn Afon Hafren a Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd Afon Hafren i leihau perygl llifogydd gan wella sefydlogrwydd amgylcheddol yr ardal ar yr un pryd. Nod y cynllun yn yr hirdymor fydd datblygu proses mewnbynnu data barhaus i agweddau o reoli perygl llifogydd, adeiladu ar yr wybodaeth sydd eisoes ar gael i ddatblygu cynaliadwyedd a chydnerthedd cymunedau drwy fesurau atalio a pharatoi i reoli perygl llifogydd.

Crynodeb o'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a ddatblygwyd er mwyn Rheoli Perygl Llifogydd o fewn CBST



Ffigwr 8: Crynodeb o'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd er mwyn cyfleu cyfeiriad strategaeth perygl llifogydd CBST mewn ffordd effeithiol.

10. Ymgynghoriad Cyhoeddus

Dechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos o hyd ar 6 Chwefror 2015 gan ddod i ben ar 23 Mawrth. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar wefan CBST ac fe'i drosglwyddwyd i aelodau etholedig, cynghorau cymuned ac awdurdodau rheoli risg sy'n gweithredu yn ardal CBST. Mae adroddiad yr ymgynghoriad ynghlwm yn Atodiad 11.

Manylion y camau ymgynghori gofynnol cyn cyhoeddi'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd yn llawn

Camau Ymgynghori	Dyddiadau	Ymgynghori
Cam Cyntaf	Chwefror 2014 – Mawrth 2015	Pob rhanddeiliad, Awdurdod Rheoli Risg a Dinesydd
Ail Gam	Mehefin 2015	Adroddiad Ymgynghori
Trydydd Cam	Gorffennaf 2015	Adolygiad Ffurfiol Cyfoeth Naturiol Cymru.
Cyhoeddi	Rhagfyr 2015	Yr Undeb Ewropeaidd

Tabl 8: Amserlen ymgynghori a'r ymgynghoreion a fydd yn cymryd rhan cyn y cyhoeddiad terfynol

11. Monitro ac adolygu

Ar ôl cwblhau'r cylch 6 blynedd cyntaf ym mis Rhagfyr 2015 bydd y broses fonitro ac adolygu yn chwarae rhan hanfodol yn y cylch nesaf. Adolygir y mesurau a gynigir yn y cynllun hwn yn flynyddol er mwyn mynd i'r afael ag effeithlonrwydd y cynlluniau a nodi anghenion unrhyw fentrau a gaiff eu cwblhau yn y dyfodol. Ymdrinnir ag unrhyw waith *ad hoc* a fydd yn codi yn ystod y cylchoedd yn ôl yr angen.

Cyhoeddodd Comisiwn Llywodraeth Cymru ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus - 'Comisiwn Williams' – gyfres o argymhellion ynglŷn â dyfodol awdurdodau lleol ar ddechrau 2014. Yn yr ardal hon, roedd yr adroddiad yn argymhell uno awdurdodau Caerffili, Torfaen a Blaenau Gwent. Yn ddiweddar mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru – Diwygio Llywodraeth Leol – wedi nodi'r amserlen ar gyfer uno'r awdurdodau ar sail canfyddiadau Comisiwn Williams ac wedi gofyn am farn rhanddeiliaid ar y cynigion. Bydd unrhyw waith a wneir i lunio fersiynau newydd o'r CRhPLlau yn y dyfodol yn adlewyrchu canlyniad y cynigion o ran uno gwirfoddol a gorfodol.

Cydlynwyd y fersiwn gyntaf hon o'r CRhPLI gan Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd De-ddwyrain Cymru (GRhPLIDDdC) sy'n cynrychioli Torfaen, Caerffili a Blaenau Gwent. Mae swyddogion yr awdurdodau wedi ystyried y posibilrwydd o gydlynu fersiynau cyntaf y CRhPLlau. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdodau wedi cytuno fod y dogfennau a luniwyd eisoes yn rhy orffenedig ac na fyddai'n ymarferol dechrau o'r newydd a llwyddo i gyrraedd y targedau cyhoeddi. Mae'r CRhPLlau yn ddibynnol ar y Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd presennol ac er mwyn cyfuno'r CRhPLlau byddai'n rhaid diwygio'r strategaethau presennol.

Ystyrir y bydd yn fwy addas cynnal adolygiad o'r fersiynau cyntaf a datblygu'r ail gylch gyda chydweithrediad llawn yr awdurdod newydd a gymeradwyir gan lunio un ddogfen yn nodi trefn rheoli perygl llifogydd pob awdurdod cyn yr uno arfaethedig.

Cyfeiriadau

Asesiad Amgylcheddol Strategol:

<http://www.torfaen.gov.uk/cy/FfyrddTeithioPharcio/FfyrddPriffyrddaPhalmentydd/FfyrddaPhriffyrdd-Llifogydd-CwteriaCharthffosydd/StrategicEnvironmentalAssessment.aspx>

Arolwg 5ed asesiad y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd (IPCC):

<http://www.ipcc.ch/>

Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Torfaen a Fabwysiadwyd (2013) Yn enwedig Amcan 3,

Polisi S3, BW1: <http://www.torfaen.gov.uk/en/Related-Documents/Forward-Planning/ADOPTED-Torfaen-LDP-inc-Appendices-v2.pdf>

CDLI Dogfen Gefnogol SD32 – Asesiad Eang o'r Perygl Llifogydd (2012):

<http://www.torfaen.gov.uk/en/Related-Documents/Forward-Planning/SD32-LDPBroadLevelAssessmentofFloodRisk.pdf>

Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) yr UE: http://ec.europa.eu/environment/water/water-framework/index_en.html

Cyfarwyddeb Llifogydd yr UE: http://ec.europa.eu/environment/water/flood_risk/

Cynllun gweithredu lleol ar fioamrywiaeth: <https://mysay.torfaen.gov.uk/consult.ti/Biodiveristy>

Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren: <https://www.gov.uk/government/publications/river-basin-management-plan-severn-river-basin-district>

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh>

Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/29/contents>

Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN) (Cymru), 'Datblygu a Pherylg o Llifogydd' (2004):

<http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/040701tan15cy.pdf>

Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 7 (2014) Yn enwedig 13.2-13.4:

<http://www.torfaen.gov.uk/en/Related-Documents/Forward-Planning/SD32-LDPBroadLevelAssessmentofFloodRisk.pdf>

Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009:

<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140328084622/http://www.legislation.gov.uk/uksi/2009/3042/contents/made>

Strategaeth leol ar gyfer rheoli perygl llifogydd:

<http://www.torfaen.gov.uk/en/RoadsTravelParking/RoadsAndPavements/FloodRiskManagement/Local-Flood-Risk-Management-Strategy.aspx>

Strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol:

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/flooding/nationalstrategy/strategy/?skip=1&lang=cy>

Atodiadau

Atodiad 1: Gofyniad Cyfarwyddeb Llifogydd yr UE

Cyfarwyddeb 2007/60/CE ar asesu a rheoli peryglon llifogydd

Cynigiwyd y gyfarwyddeb gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 18/01/2006, ac fe'i cyhoeddwyd yn y pen draw yn y cyfnodolyn swyddogol ar 6 Tachwedd 2007. Ei nod yw lleihau a rheoli perygl llifogydd i iechyd pobl, yr amgylchedd, treftadaeth ddiwylliannol a gweithgaredd economaidd. Yn ôl y Gyfarwyddeb, roedd yn ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau gynnal asesiad cychwynnol erbyn 2011 i nodi basnau'r afonydd a'r ardaloedd arfordirol cysylltiedig sydd mewn perygl o lifogydd. Yna, roedd yn rhaid llunio mapiau risg llifogydd ar gyfer y parthau hyn erbyn 2013 a sefydlu cynlluniau rheoli perygl llifogydd a oedd canolbwytio ar atal, amddiffyn a pharatoi erbyn 2015. Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn gymwys i ddyfroedd mewndirol ynghyd â dyfroedd arfordirol ar draws holl diriogaeth yr UE.

Rhaid gweithredu'r gyfarwyddeb mewn cydweithrediad â'r gyfarwyddeb fframwaith dŵr (WFD), yn benodol drwy gydlyn cynlluniau rheoli perygl llifogydd a chynlluniau rheoli basnau afonydd, a thrwy gydlyn gweithdrefnau i ymgysylltu â'r cyhoedd wrth baratoi'r cynlluniau hyn. Rhaid i'r holl asesiadau, mapiau a chynlluniau a gaiff eu paratoi fod ar gael i'r cyhoedd.

Ymhellach, rhaid i aelod-wladwriaethau gydlyn eu harferion rheoli perygl llifogydd mewn bansau afonydd a rennir, gan gynnwys â thrydydd siroedd, a thrwy weithredu fel un i beidio â rhoi mesurau ar waith a fyddai'n cynyddu'r perygl o lifogydd mewn gwledydd cyfagos. Rhaid i aelod-wladwriaethau ystyried datblygiadau hirdymor, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, yn ogystal ag arferion defnydd tir cynaliadwy yn y cylch rheoli perygl llifogydd yr ymdrinnir ag ef yn y Gyfarwyddeb hon.

Atodiad 2: Rheoliadau Perygl Llifogydd a Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

Roedd Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 yn gosod dyletswydd statudol ar bob asiantaeth rheoli perygl ar draws yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig i sefydlu trefn rheoli perygl llifogydd drwy lunio asesiadau cychwynnol, mapiau perygl a risg llifogydd a fyddai'n arwain at gynllun rheoli perygl llifogydd wedi'i flaenoriaethu er mwyn mynd i'r afael â rheoli perygl llifogydd.

- **Adran 17 Adolygiad o'r APLIC** – Rhaid cwblhau'r adolygiad cyntaf o'r APLIC erbyn mis Rhagfyr, effeithir yn sylweddol ar hyn gan ostyngiad o 50%
- **Adran 24 Adolygiad o Fapiau Perygl Llifogydd** – Rhaid cwblhau'r adolygiad cyntaf o'r Mapiau Perygl Llifogydd erbyn mis Mehefin 2019, effeithir yn sylweddol ar hyn gan ostyngiad o 50%
- **Adran 26 Dyletswydd i lunio CRhPLI** – Disgwylir y bydd yr awdurdod yn cyrraedd y targed i lunio'r Cynllun o fewn y terfyn amser, fodd bynnag yn sgil colli arian a swyddfa o bosibl, bydd hyn yn arafu'r broses derfynol a'r gwaith o gyflwyno unrhyw newidiadau angenrheidiol yn dilyn adolygiad CNC.
- **Gweithredu'r CRhPLI** – Mae'r Mesurau a argymhellir gan yr awdurdod yn y CRhPLI eisoes wedi'u tanariannu ac mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at ailddrafftio'r adroddiad a'r mesurau i adlewyrchu'r newidiadau i'r grant
- **Adran 30 Adolygiad o'r CRhPLI** - Rhaid cwblhau'r adolygiad cyntaf o'r CRhPLI erbyn mis Mehefin 2021, effeithir yn sylweddol ar hyn gan ostyngiad o 50%
- **Adran 35 Dyletswydd i Gydweithio** – Bydd yr awdurdod yn ei chael yn anodd iawn i gydweithio gyda CNC yn y dyfodol ar unrhyw gynllun ar y cyd a allai fod o fudd i'r ddau ohonom o dan eu cynlluniau rheoli perygl llifogydd afon Hafren a basn afon Hafren.

Roedd Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gosod sawl dyletswyddau statudol ar awdurdodau rheoli risg llifogydd. Yn ôl y ddeddf, dynodwyd CBST yn Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (ALLIA) a chafodd gyfrifoldebau statudol i reoli perygl llifogydd o ffynonellau Dŵr wyneb, Cyrsiau dŵr cyffredin a Dŵr daear:

- **Adran 10 Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd** – Yn ôl y ddeddf roedd yn ofynnol i ALLIA lunio Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd.
- **Adran 19 Ymchwiliadau gan Awdurdodau Lleol** – Os daw ALLIA yn ymwybodol o lifogydd yn ei ardal rhaid iddo ymchwilio iddynt, i'r graddau ag y mae'n ystyried hynny'n angenrheidiol neu addas.
- **Adran 21 Dyletswydd i Gadw Cofrestr** – Rhaid i ALLIA sefydlu a chadw cofrestr o'r strwythurau a nodweddion sydd, ym marn yr awdurdod, yn debygol o gael effaith sylweddol ar berygl llifogydd.
- **Atodlen 1 Dynodi Nodweddion** – Mae'r awdurdodau rheoli risg a nodwyd yn y Ddeddf, yn gyfrifol am ddynodi strwythurau artiffisial neu nodweddion naturiol yn yr amgylchedd a gaiff eu hystyried gan yr awdurdod yn berygl llifogydd.
- **Atodlen 3 Draenio Cynaliadwy** – Mae'r adran hon o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau rheoli risg sefydlu corff cymeradwyo yn amodol ar gyfarwyddwyd gweinidogion ynglŷn â'r safonau cenedlaethol.

Atodiad 3: Manylion cyswllt Awdurdodau Rheoli Risg

Cyfoeth Naturiol Cymru.
Pencadlys
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd CF24 0TP

Swyddfa Ardal y De-ddwyrain
Plas yr Afon
Parc Busnes Llanelirwg
Caerdydd CF3 0EY

Rhif ffôn: 08708 506506
Ebost: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
Gwefan: www.environment-agency.gov.uk

Floodline
Rhif ffôn: 0845 988 1188 (gwasanaeth 24 awr)
Type Talk: 0845 602 6340 (ar gyfer cwsmeriaid trwm eu clyw)

Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yng Nghymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen NP4 6YB

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Adran Gwasanaethau Cymdogaeth
Adain Rheoli Rhwydwaith
Tŷ Blaen
Panteg Way
New Inn
Pont-y-pŵl NP4 0LS

Cwmni Dŵr
Dŵr Cymru – Welsh Water
Pentwyn Road
Nelson
Treharris CF46 6LY
Rhif ffôn y Pencadlys: 01443 452300
Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0800 052 0140
Gwefan: www.dwrcymru.co.uk

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View
Llantrisant CF72 8LX

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Tŷ Vantage Point
Parc Busnes Vantage Point
Tŷ Coch Way
Cwmbrân NP44 7HF

Heddlu Gwent
Pencadlys Heddlu Gwent

Croesyceiliog
Cwmbrân NP44 2XJ

Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan
Tŷ Mamhilad
Bloc A
Ystad Parc Mamhilad
Pont-y-pŵl
Torfaen NP4 0YP

Iechyd Cyhoeddus Cymru
14 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Melin Homes
Tŷ'r Efail
Lower Mill Field
Pont-y-pŵl
Torfaen NP4 0XJ

Network Rail
Western House
1 Holbrook Way
Swindon SA1 1BD

SWTRA – Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru
12A Tŷ Llandarcy
The Courtyard
Llandarcy
Castell-nedd SA10 6EJ

CADW
Uned 5-7 Cefn Coed
Nantgarw
Caerdydd

Bron Afon – Tai Cymunedol
Tŷ Bron Afon
Clos William Brown
Parc Diwydiannol Llantarnam
Cwmbrân
NP44 3AB

Atodiad 4 Mesurau Rheoli Perygl Llifogydd Ardal Basn Afon Hafren

Atal perygl: Mae 9 mesur eisoes mewn lle i atal perygl llifogydd yn Ardal Basn yr Afon.

- gweithio gydag eraill i osgoi datblygiadau anaddas yn y gorlifdir;
- sicrhau iawndal gorlifdir addas i liniaru datblygiadau;
- cefnogi gweithredu systemau draenio trefol cynaliadwy;
- rhoi cyngor ar sut y gall datblygiadau newydd wrthsefyll llifogydd yn well;
- sicrhau nad yw gwaith mewn, dros a gerllaw prif afonydd yn cynyddu'r perygl llifogydd nac yn achosi llygredd drwy broses ganiatáu effeithiol;
- codi ymwybyddiaeth ac annog perchnogion tir i ysgwyddo eu cyfrifoldebau fel perchnogion glannau'r afon;
- gwneud gwaith mapio a modelu i sicrhau bod yr wybodaeth am berygl llifogydd wedi'i diweddarau ac yn addas ar gyfer y pwrpas;
- sicrhau cynllun cynnal cadarn;
- Hyrwyddu mesurau gwrthsefyll llifogydd a gwrth-llifogydd.

Paratoi ar gyfer perygl: Mae 7 mesur eisoes mewn lle i baratoi ar gyfer perygl llifogydd yn Ardal Basn yr Afon.

- darparu cyngor a gwybodaeth i Fforymau Cydnerthedd Lleol i'w galluogi i leihau effaith llifogydd;
- darparu cyngor a gwybodaeth i gymunedau lleol i'w galluogi i leihau effaith llifogydd;
- codi ymwybyddiaeth prif bartneriaid am eu swyddogaethau i reoli perygl llifogydd a chwilio am gyfleoedd ar gyfer canlyniadau ar y cyd;
- cynnal a gwella'r gwasanaeth sy'n darogan llifogydd, rhybuddio am lifogydd a rheoli llifogydd;
- darparu gwasanaeth 24 awr er mwyn ymateb i lifogydd;
- sicrhau bod gan bob cronfa ddŵr 'risg uchel' gynlluniau cronfeydd dŵr ar y safle mewn lle;
- Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd i weithio'n agos er mwyn ystyried y budd neu'r anfantais i fasn yr afon cyfan wrth wneud penderfyniadau a gweithredu.


Amddiffyn rhag perygl: Mae 5 mesur eisoes mewn lle sy'n amddiffyn rhag perygl llifogydd yn Ardal Basn yr Afon.

- adolygu Cynlluniau Rheoli Systemau Asedau;
- annog arferion ffermio gorau i leihau dŵr wyneb ffo cyflym ac erydu'r tir;
- nodi cyfleoedd i adfer gorlifdiroedd;
- darparu gwaith brys lle bo'r angen ar gyfer asedau rheoli perygl llifogydd;
- sicrhau y caiff cronfeydd dŵr 'risg uchel' eu rheoleiddio yn unol â Deddf Cronfeydd Dŵr 1975.

Adfer ac adolygu perygl: Mae 1 mesur mewn lle i adfer ac adolygu yn dilyn llifogydd yn Ardal Basn yr Afon.

- Gwella a datblygu ein gwasanaethau ar sail gwersi a nodwyd yn dilyn digwyddiadau llifogydd.

Crynodeb o'r Mesurau a amlinellir yng Nghynllun Rheoli Perygl Llifogydd Ardal Basn Afon Hafren



Ffigur 9: Mesurau Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Ardal Basn Afon Hafren: Crynodeb o'r mesurau i'w cymharu'n effeithiol â mesurau CRhPLI CBST (Ffigur 8).

Atodiad 5: Amcanion y Cynllun Strategol Lleol Rheoli Llifogydd

	Amcanion y Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd	Mesurau y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd
1	Lleihau perygl i fywyd drwy leihau'r nifer o bobl sy'n agored i berygl llifogydd o ddyfnder a chyflymder arwyddocaol.	1, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13,14,15,16,17,18,19,20
2	Lleihau tarfu ar y gymuned drwy leihau nifer yr eiddo preswyl a masnachol a gaiff eu heffeithio gan berygl llifogydd.	1, 2, 3, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20
3	Lleihau tarfu ar seilwaith hanfodol neu baratoi cynlluniau i alluogi'r gweithredoedd i barhau.	3, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20
4	Lleihau trallod drwy leihau nifer y bobl sy'n agored i berygl llifogydd.	1, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13,14,15,16,17,18,19,20
5	Darparu systemau i roi rhybudd cynnar o lifogydd posibl i unigolion a chymunedau.	11
6	Darparu systemau effeithlon ar gyfer rheoli a chynnal a chadw asedau ar yr wyneb.	5, 6, 7, 8, 9, 10, 13, 15, 18, 19
7	Lleihau difrod economaidd	1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13,14,15,16,17,18,19, 20
8	Lleihau costau rheoli.	5, 6, 7, 8, 9, 10, 12, 13, 15,16,17, 18,19
9	Cyfrannu at ymateb ar ran Torfaen i'r newid yn yr hinsawdd.	1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 10, 11, 12, 13, 14, 18, 19
10	Amddiffyn a gwella Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SBCN)	4, 7, 10, 12, 13, 14, 16, 18, 19
11	Cyfrannu at gyflenwi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cyngor Bwrdesitref Sirol Torfaen	4, 7, 10, 12, 13, 14, 16, 18, 19
12	Creu sianeli naturiol a chyrrff dŵr gan wneud yr addasiadau lleiaf	7, 10, 12, 13, 14, 18, 19, 20
13	Amddiffyn a gwella ansawdd dŵr	5, 6, 7, 8, 9, 10, 13, 15, 18, 19
14	Darparu cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer pob ardal sy'n wynebu perygl llifogydd	1, 2, 3, 4, 6, 10, 12, 13, 14
15	Sicrhau bod mesurau yn cael eu cynllunio a'u hadeiladu mewn ffordd gynaliadwy	7, 8, 9, 10, 13, 15, 18, 19, 20
16	Sicrhau bod CBST yn gweithio mewn partneriaeth gyda phob partner rheoli risg arall ac yn cydweithio gydag Awdurdodau cyfagos	1, 2, 3, 4, 6, 9, 10, 12, 14, 16, 19, 20
17	Sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi ar gyfer gweithredu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd yn gyson, y gellir eu hamddiffyn, a'u bod yn destun dadansoddiad cost a budd.	1 – 20

Tabl 9: y cysylltiadau rhwng amcanion y strategaeth leol ar gyfer rheoli perygl llifogydd a'r cynllun rheoli perygl llifogydd.

Atodiad 6: Lleoliad Ffiniau Wardiau Etholiadol CBST


Torfaen County Borough Council Ward Boundaries



Ffigur 9: Wardiau Etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Atodiad 7: Map Llifogydd a ddiweddarwyd CBST - Modelau Llifogydd Dŵr Wyneb Perygl Uchel


TCBC High Risk Flood Map for Surface Water Flooding



Ffigwr 10: Map Llifogydd Perygl Uchel Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Atodiad 8: Map Llifogydd a ddiweddarwyd CBST – Modelau Llifogydd Dŵr Wyneb Perygl Canolig


TCBC Medium Risk Flood Map for Surface
Water Flooding



Ffigur 11: Map Llifogydd Perygl Canolig Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Atodiad 9: Map Llifogydd a ddiweddarwyd CBST – Modelau Llifogydd Dŵr Wyneb Perygl Isel


TCBC Low Risk Flood Map for Surface
Water Flooding



Ffigur 12: Map Llifogydd Perygl Isel Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Atodiad 10: Map Llifogydd CBST yn dangos Modelau Perygl Isel, Canolig ac Uchel o Llifogydd Dŵr Wyneb

TCBC Combined Flood Risk Maps for High, Medium and Low Risk



Ffigur 13: CBS Torfaen, Map yn dangos Perygl Uchel, Canolig ac Isel o Llifogydd Dŵr Wyneb.

Atodiad 11. Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLI) – Adroddiad ar yr ymgynghoriad Ardal a gaiff ei Heffeithio

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Prif Negeseuon

Lluniodd swyddogion y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft yn unol â gofyniad Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009. Yn unol â gofynion y Rheoliadau bu'r ddogfen ddrafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a derbyniwyd sylwadau gan yr ymgynghoreion. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r newidiadau a wnaed i'r CRhPLI yn sgil derbyn y sylwadau hynny.

Cefndir

Mae rheoli perygl llifogydd yn syniad sydd wedi dod i'r amlwg ar agenda llywodraethau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol. Amlinellwyd pwyslais y Deyrnas Unedig ar lifogydd gan Syr Michael Pitt yn sgil sefydlu Adolygiad Pitt yn 2008. Datblygwyd yr adroddiad fel adolygiad cynhwysfawr o'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn llifogydd yr haf 2007. Mae'r adroddiad cynhwysol 500 tudalen o hyd yn cynnwys 92 o argymhellion a gyflwynwyd gerbron llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Ar lefel ryngwladol, cynlluniwyd cyfarwyddeb llifogydd (Cyfarwyddeb 2007/60CE Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar asesu perygl llifogydd) i gynnig strategaeth gyffredin ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Troswyd y gyfarwyddeb yn gyfraith ar gyfer y Deyrnas Unedig gan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009. Roedd y rheoliadau yn gosod sawl gofyniad ar awdurdodau lleol, yn yr ardaloedd lle nodwyd bod perygl llifogydd, i weithredu fel a ganlyn:

- Llunio mapiau ac adroddiadau asesiad perygl llifogydd cychwynol (APLIC) erbyn 22 Rhagfyr 2011 (a'u defnyddio i nodi 'Ardaloedd Perygl Llifogydd' yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth);
- Llunio mapiau perygl llifogydd a mapiau risg llifogydd erbyn 22 Rhagfyr 2013;
- Paratoi cynlluniau rheoli perygl llifogydd (CRhPLI) erbyn 22 Rhagfyr 2015;
- Adolygu a diweddarau pob asesiad, map a chynllun bob 6 blynedd.

Yn sgil datblygu'r Rheoliadau Perygl Llifogydd, lluniwyd Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i roi eglurder o ran pwerau a chyfrifoldebau awdurdodau i reoli perygl llifogydd. Nod y Rheoliadau Perygl Llifogydd a'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yw lleihau'r perygl o lifogydd yn y dyfodol; drwy ddefnyddio safon perygl llifogydd ar gyfer y Deyrnas Unedig ac Ewrop. Mewn perthynas â Chymru, mae agweddau ar hyn yn canolbwyntio ar strategaethau cenedlaethol (Llywodraeth Cymru), strategaethau Basnau Afonydd (Cyfoeth Naturiol Cymru) a strategaethau lleol (Awdurdod Lleol Arweiniol Llifogydd).

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn un o blith 8 Awdurdod Lleol yng Nghymru sydd o fewn yr ardaloedd perygl llifogydd a amlinellwyd gan yr Asesiad Perygl Llifogydd Cychwynol. Oherwydd hyn, mae gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol i ateb gofynion y Rheoliadau Perygl Llifogydd. Yn dilyn datblygu'r Rheoliadau Perygl Llifogydd, lluniwyd y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr i gynnig eglurder o ran egwyddorion a chyfrifoldebau Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd.

Gofynion cyntaf y cynllun oedd canfod a chyhoeddi faint o Bobl, Gweithgareddau Economaidd, Amgylcheddau Naturiol a Hanesyddol sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd. Gwnaed hyn drwy ddefnyddio'r Map Llifogydd a ddiweddarwyd ar gyfer y Model Dŵr Wyneb a grëwyd gan JBA Consulting ac a gomisiynwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC. Mae CBST wedi gwirio'r ffigyrau cyffredinol a

mireinio'r cyfrifon drwy ychwanegu ardal glustogi, er mwyn rhoi ystyriaeth i safonau adeiladu presennol ac uchder fframiau drysau, sef dyfnder cyffredinol dŵr er mwyn achosi llifogydd mewnol.

Yr ail ofyniad oedd amlinellu amcanion a mesurau arfaethedig yr Awdurdod i reoli perygl llifogydd yn yr ardaloedd. Mae CBST wedi nodi 20 amcan manwl a'u nod pennaf yw paratoi cymunedau ac atal llifogydd, gan sicrhau bod yr Awdurdod yn gweithredu'n holistaidd wrth reoli perygl llifogydd gan adlewyrchu gwaith Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Ardal Basn Afon Hafren yn unol â chyfarwyddyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Materion a Chanfyddiadau

Mae'r CRhPLI yn un o ofynion y Rheoliadau Perygl Llifogydd ac mae'n rhaid cyhoeddi'r ddogfen yn ffurfiol erbyn mis Rhagfyr 2015.

Ar hyn o bryd mae CBST wedi cyhoeddi dwy ddogfen flaenorol; sef yr Asesiadau Perygl Llifogydd Cychwynnol (un o ofynion Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009) a'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd (SLRPLI) (un o ofynion Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010). Datblygodd y ddwy ddogfen hyn ddealltwriaeth eang o'r ardaloedd lle ceir perygl llifogydd, a datblygwyd 17 o amcanion manwl sy'n bodloni 4 amcan trosfwaol y strategaeth genedlaethol. Mae'r amcanion yn amlinellu sut y bydd CBST yn bwriadu rheoli perygl llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsgiau dŵr cyffredin.

Datblygwyd y CRhPLI hwn mewn partneriaeth gyda sawl asiantaeth rheoli risg ar draws de-ddwyrain Cymru (CNC, DCWW, Awdurdodau Lleol sy'n bartneriaid), cafodd prif bwyslais yr ymchwil ei gyfarwyddo drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sydd wedi cyfarwyddo'r ALILIAu ar draws de-ddwyrain Cymru drwy Grŵp Rheol Perygl Llifogydd De-ddwyrain Cymru (GRhPLIDDdC). Mae hyn wedi gosod llwyfan i ddatblygu gweithgorau, er mwyn targedu'r dulliau gorau o ran arfer da sydd eu hangen i fwrw ymlaen yn gywir â chynlluniau rheoli perygl llifogydd, gan ddefnyddio'r datblygiadau technolegol diweddaraf ar yr un pryd i ddatblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r perygl i gymunedau.

Mae'r gweithgor hwn wedi cydlynu'r gwaith ymchwil a datblygu ar gyfer y CRhPLI gan arwain at greu templed drafft y gall pob Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ei ddefnyddio, gan symleiddio'r ffordd y bydd Awdurdodau yn llunio eu CRhPLIau. Yn ail, fe wnaeth y gweithgor nodi methodoleg ar gyfer creu cyfrifon gofodol i gynrychioli'r meysydd perygl perthnasol (Pobl, Gweithgaredd Economaidd ac Amgylcheddau Naturiol a Hanesyddol).

Mae CBST wedi cyrraedd y cam lle cyhoeddwyd y CRhPLI ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus. Mae manylion dull a chanlyniadau'r ymgynghoriad wedi'u nodi yn adran 5.

Ymgynghori

Cydlynwyd y gwaith ymgynghori yn ystod cyfnod paratoi'r ddogfen hon drwy Grŵp Rheoli a Gweithgor Perygl Llifogydd De-ddwyrain Cymru sy'n cynnwys:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- CBST - mewnol
- Dŵr Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Dinas Abertawe
- Cyngor Dinas Caerdydd

- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Yn sgil yr ymgynghoriad, lluniwyd templed CRhPLI a ddefnyddiwyd gan yr holl Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweinol, â rhai eithriadau.

Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael i'r cyhoedd ar lein drwy dudalen we 'My Say' Torfaen, sy'n galluogi'r cyhoedd i lawrlwytho'r ddogfen. Mae CBST yn cyhoeddi'r wybodaeth drwy'r wefan ac is-gyfrifon y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn anfon y neges gyntaf ac yn anfon negeseuon atgoffa achlysurol cyn diwedd y cyfnod ymgynghori. Fe wnaeth CBST hefyd gyflwyno'r CRhPLI i'r partneriaid risg llifogydd sy'n aelodau o Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd De-ddwyrain Cymru a chysylltu â 'Phanel Pobl Torfaen'.

Daeth y cyfnod ymgynghori statudol, 6 wythnos o hyd, i ben ar 23 Mawrth 2015 a chasglwyd y canlyniadau yn Atodiad 1, ceir crynodeb o'r wybodaeth yn Nhabl 1.

Tabl 1 Crynodeb o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad

Ymatebion i'r Ymgynghoriad	Rhif Ymateb (RhY)	Nifer
Sylwadau Cefnogol	1, 2, 5, 6, 8, 15, 22, 42	8
Ehangu ar Ddogfennau Partneriaid	3, 9, 11, 24, 25, 57	6
Diweddaru Dogfennau a Chyfrifoldebau	4, 7, 16, 17, 18, 29	6
Fformat Adrodd Ewropeaidd	12, 13, 14	3
Materion yn ymwneud â Fformatio a Strwythur	10, 19, 20, 23, 35, 36, 48, 53	8
Dichonoldeb a Materion Cysylltiedig	21, 31, 43, 44, 46, 47, 54, 55, 56	9
Ymholiadau a Datganiadau Cyffredinol	26, 27, 28, 30, 32, 33, 34, 37, 38, 39, 40, 41, 45, 49, 50, 51, 52	17

Tabl 1: Crynodeb o'r ymateb gan ymgynghoreion statudol ac aelodau'r cyhoedd.

Mae'r adborth sydd wedi'i gynnwys yn yr Atodiadau yn amlinellu'r sylwadau unigol a gafwyd gan yr ymgynghoreion; derbyniwyd yr adborth mwyaf gan CNC, Asiantaeth yr Amgylchedd a Dŵr Cymru. Roedd yr adborth a dderbyniwyd gan bawb yn gadarnhaol ar y cyfan ac adlewyrchir hyn yn y categori 'Sylwadau Cefnogol' (Tabl 1). Roedd y newidiadau cyffredinol a gynigiwyd ar gyfer y CRhPLI yn ymwneud â mân ddiweddariadau a materion o ran fformatio er mwyn alinio'r CRhPLI â thempledau adrodd Ewropeaidd gan gynnig mwy o eglurder o ran y berthnas rhwng dogfennau presennol h.y. y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd a'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI).

Yn gyffredinol, derbyniwyd y mesurau a amlinellwyd yn y CRhPLI ac eithrio Amcanion 11, 13 ac 19. Cafwyd awgrymiadau ynghylch dilysrwydd y mesurau a sut y gellir eu cyflawni yn ystod cylch cyntaf y CRhPLI. Mewn ymateb i'r sylwadau y bwriad yw ymgorffori'r Cynllun Datblygu Lleol yn fwy penodol o fewn y cynllun er mwyn adlewyrchu'r pwyntiau hyn, fodd bynnag, bydd yr Awdurdod yn parhau â'r fethodoleg arfaethedig ar yr egwyddorion a ganlyn mewn perthynas â phob mesur y derbyniwyd sylw yn ei gylch.

Amcan 11 – Systemau rhybuddio cynnar. (RN – 21, 31)

Efallai y caiff astudiaeth beilot ei chynnal ar ôl cwblhau'r CRhPLI. Byddai'r astudiaeth beilot yn cael ei sefydlu i greu system rhybuddio cynnar logarithmig gan ddefnyddio data rhybuddion tywydd y Swyddfa Dywydd h.y. Melyn, Oren a Choch. Mae pob rhybudd yn rhoi amcangyfrif o hyd a dwyster uchaf y tywydd garw. Caiff gwaith mapio a logio ei wneud i gwestiynu canlyniadau ar sail rhybuddio gan y Swyddfa Dywydd gan ganolbwyntio'n fwyaf tebygol ar gwlfertau.

Amcan 13 – Cynllunio ac Ysgolion y 21ain Ganrif. (RN – 54, 55)

Cafodd yr amcan hwn ei deilwra i gynnwys gwaith a wnaed eisoes yn y CDLI. Fodd bynnag, mae'r mesur yn nodi Ysgolion yr 21ain ganrif fel cyfeirnod posibl ar gyfer arfer gorau i ddatblygiadau'r dyfodol. Mae'r egwyddor wedi'i gosod y tu cefn i'r newidiadau a ddisgwylir yn isadeiledd ysgolion Torfaen e.e. gallai cynigion ar gyfer ysgolion newydd gynnig safle i'r Awdurdod ymgorffori SDCau a gaiff eu rheoli o'r fan lle mae'r dŵr yn tarddu; yn debyg i brosiect GlawLif yn Llanelli a wnaed ar y cyd â Dŵr Cymru.

Amcan 19 – Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. (RN – 54, 56)

Byddai'r gwaith o ddiweddarau'r CDLI yn cydfynd â champau adolygu ffurfiol y ddogfen. Mae'r mapio llifogydd ac ymholi gofodol a ddefnyddiwyd i ganfod cyfrifon yn y CRhPLI ar lefel uwch na'r mapiau llifogydd sydd ar gael i gynllunwyr drwy Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15. Byddai'r amcan hwn yn rhannu'r wybodaeth yn y mapiau llifogydd â'r adrannau cynllunio i ategu mapiau TAN 15 gan sicrhau bod y data diweddaraf am lifogydd ar gael i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau, cyn i'r adolygiad cyntaf gael ei gynnal.

Anfonwyd ymateb unigol i bob ymholiad cyffredinol a chwestiwn a ofynnwyd gan drigolion ynghyd â gweddill yr ymgynghoreion o ran y cwestiynau a'r materion a godwyd yn eu hymatebion. Mae hyn yn cynnwys y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Glanach a chwestiynau a ofynnwyd yn ddiweddarach gan aelod o'r cyhoedd a gysylltodd â'r Pwyllgor.

Yn sgil yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud mân newidiadau a diweddariadau i'r CRhPLI ac yn ychwanegu rhai pwyntiau er eglurder, mewn ymateb i'r sylwadau. Ni fyddwn yn gwneud dim newidiadau i'r Amcanion 1 – 20 ac eithrio diweddarau'r cod adrodd Ewropeaidd, a rhoi mwy o eglurder i gyfathrebu'r amcanion.

Peryglon

Nod y CRhPLI oedd dadansoddi ac adrodd ar nifer y bobl/eiddo, gweithgareddau economaidd ac amgylcheddau naturiol a hanesyddol a oedd mewn perygl o ddioddef llifogydd yn ystod llifogydd perygl isel, canolig ac uchel.

Mae'r mesurau ac amcanion a nodir yn y ddogfen hon yn adlewyrchu'r amcanion strategol a nodwyd yn y Strategaethau ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd Lleol a Chenedlaethol a'u nod yw lleihau'r perygl drwy fesurau ataliol a gwaith paratoi.

Ni all CBST ddileu'r perygl o lifogydd, yn hytrach gall ei reoli a'i leihau lle bo'n bosibl.

Os na chaiff y CRhPLI ei roi ar waith bydd risgiau deddfwriaethol a pherygl i enw da yr Awdurdod o dan Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 a gallai hyn arwain at gosb ariannol gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Casgliad/crynodeb

Yn ôl y gyfraith, rhaid i CBST lunio'r CRhPLI hwn sy'n rhoi cyfrifon manwl o'r perygl llifogydd i bobl, gweithgaredd economaidd ac amgylcheddau naturiol a hanesyddol. Gosodwyd y perygl a nodwyd yn erbyn SLRhPLI y Cyngor sydd eisoes yn bodoli ac aethpwyd i'r afael â'r materion yn fwy manwl yn yr amcanion sy'n anelu at baratoi ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd ac annog cydnherthedd cymunedol. Bydd yr amcanion yn rhoi eglurder a manylder i unrhyw waith adolygu a phrosesu gwybodaeth pan gaiff fersiynau diweddarach o'r cynllun eu llunio yn y dyfodol. Bu'r CRhPLI hwn yn destun craffu gan y cyhoedd a phartneriaid a dim ond mân newidiadau golygyddol ac ailddosbarthiadau fydd eu hangen cyn yr adolygiad ffurfiol gan CNC ym mis Mehefin.

Tabl 2: Canlyniadau a Chamau Gweithredu yr Ymgynghoriad

Rhif	Sefydliad	Sylwadau a Wnaed	Camau Gweithredu
1	Dŵr Cymru	Yn gyffredinol rydym yn cefnogi cynnwys y CRhPLI Drafft a'r Amcanion a nodwyd. Rydym yn awyddus i barhau i weithio'n agos gyda chi wrth i amcanion y cynllun gael eu cyflawni ac i weithio mewn partneriaeth lle bo'n briodol	Dim
2	Dŵr Cymru	Rydym yn hapus fod y CRhPLI yn cydnabod yr angen i amddiffyn seilwaith allweddol	Dim
3	Dŵr Cymru	Rydym yn hapus fod yr amcanion ar tud 30 yn cysylltu'n agos â rhai'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (WFD), ond hoffem weld hyn yn cael ei adlewyrchu mwy yng nghorff y testun, yn enwedig tudalen 26	Adolygu tud 26 a chydabod y gyfarwydddeb drwy gydol y CRhPLI lle bo'n briodol
4	Dŵr Cymru	Y trothwy cyfeintiol presennol ar gyfer cronfeydd mawr uchel yw 25,000km ³ ; mae hyn yn debygol o newid yn sgil cynigion Llywodraeth Cymru i leihau'r trothwy i 10,000m ³ , fel y nodwyd yn atodlen 2 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.	Cydnabyddiaeth o gyfrifoldebau Dŵr Cymru o ran Cronfeydd dŵr a newidiadau o dan atodlen 2 i'w hymgorffori yn y CRhPLI
5	Dŵr Cymru	Rydym yn falch o weld yr adran sy'n nodi sut rydych yn cynnal eich asedau, yn enwedig cwlfertau a rhwydwaith uwch. Byddai'n ddefnyddiol petai'n bosibl i ni dderbyn gwybodaeth am eich asedau fel rhan o'n cyfrifoldebau rhannu data er mwyn i ni gael gwell dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng y seilwaith draenio yn y sir.	Dylid rhannu data yn ystod cyfarfodydd GRhPLIDDdC yn y dyfodol
6	Dŵr Cymru	Rydym yn awyddus i barhau i ddatblygu'r berthynas waith dda sydd gennym er mwyn rhoi gwybod i'n cwsmeriaid am y cyfrifoldebau dros berygl llifogydd yn y sir a hefyd wrth ymateb i lifogydd	Parhau â'r 'Berthynas Waith dda'
7	Dŵr Cymru	Safonau dylunio ar t. 12. Ers cyflwyno Safonau Gweinidogion Cymru ar gyfer carthffosydd budr disgrychiant ym mis Hydref 2012, rydym yn gweithio yn unol â safonau dylunio ac adeiladu 'Sewers for Adoption' 7fed argraffiad. Er ein bod yn disgwyl i garthffosydd newydd gael eu dylunio a'u hadeiladu yn ôl y safon hwn, nid yw'n cynnwys gwaith cynnal.	Diwygio tud 12 i gynnwys y canllawiau diweddaraf yn ymwneud â dyluniad a safonau adeiladu carthffosydd
8	CNC	Yn bodloni'r gofyniad. Map yn dangos ffin yr Ardal lle ceir Perygl Llifogydd wedi'i gynnwys ar tud 14, ffigur 5.	Dim
9	CNC	Byddai'n dda gweld crynodeb ysgrifenedig byr yn y cynllun sy'n rhoi disgrifiad o'r lleoedd a'r pethau sydd yn wynebu'r perygl mwyaf er mwyn sicrhau bod y gofynion wedi'u bodloni'n llwyr ac er hwylustod i ddefnyddwyr. h.y. mae 3 cefnffordd mewn perygl uchel o lifogydd ar draws yr ardal ac ati.	Diwygio'r CRhPLI a chynnwys y syniad o roi crynodeb byr o'r map perygl a risg o dan y tabl canlyniadau
10	CNC	Mapiau risg llifogydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 4 – 7 â'r cysylltiad i'r mapiau rhyngweithiol ar tud 8 (er gwybodaeth: mae'n bosibl y bydd y cysylltiad ar tud 8 yn newid yn y misoedd i ddod wrth i CNC ddatblygu ei wefan. Argymhellir eich bod yn gwirio'r cysylltiad cyn cyhoeddi eich cynllun terfynol neu yn hytrach na chysylltiad, gallech gynnwys cyfeiriad at y tudalen fel y gellid dod o hyd iddo ar y rhyngwyd os bydd yn newid).	Diwygio tud 8 a'r Cysylltiadau i fapiau rhyngweithiol AA/CNC yn Gyffredinol
11	CNC	Mae amcanion y cynllun ar tud. 29/30. Os caiff amcanion y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd Torfaen	Diwygio'r cysylltiadau rhwng y

Rhif	Sefydliad	Sylwadau a Wnaed	Camau Gweithredu
		eu mabwysiadu fel rhan o'r cynllun hwn, dylid cyfeirio at y ffaith iddynt gael eu mabwysiadu gan y CRhPLI er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.	strategaeth leol ar gyfer rheoli perygl llifogydd
12	CNC	Mae sawl maes y mae'n orfodol adrodd amdanynt i Ewrop ar goll o'r CRhPLI a bydd eu hangen er mwyn adrodd i Ewrop; argymhellir eu bod yn cael eu cynnwys yn y CRhPLI (math o fesur (is-gategori M41, M42, ac ati), cynnydd o ran gweithredu, amserlen y CRhPLI).	Diwygio is-gategori y mesur adrodd a'i gynnwys yn y CRhPLI
13	CNC	Dylid hefyd adrodd i Ewrop am fesurau sydd eisoes ar waith ac rydym yn annog ystyried sut y gellid gwneud hyn.	Cynnwys unrhyw fesurau a gaiff eu cymryd ar hyn o bryd i adlewyrchu'r strategaethau a gaiff eu gweithredu o'r SLRhPLI
14	CNC	Mae pob mesur yn cysylltu â'r amcanion drwy'r mesurau lefel uwch. Er mwyn adrodd i Ewrop, bydd yn rhaid codio'r mesurau hyn yn unigol (e.e. M21, M31. M32, M41, ac ati).	Codau'r mesurau yn unol â safonau Ewrop i'w cynnwys yn nisgrifiadau'r amcanion
15	CNC	Ymdrinnir â hyn ar tud. 41. Bydd y CRhPLI yn destun adolygiad blynyddol. Mae digon o fanylion i fodloni'r gofynion deddfwriaethol.	Dim
16	CNC	Cafodd yr amserlen yngynghori ei chynnwys ar tud. 40. Bydd angen ychwanegu adroddiad ar yr ymgynghoriad i'r CRhPLI terfynol er mwyn cydymffurfio â'r gofynion.	Diweddarau'r Amserlen ar gyfer ymgynghori a chynnwys adroddiad yr ymgynghoriad
17	CNC	Mae CBST wedi ystyried y mesurau yn y DBA CRhBA (tud. 26) er mwyn sicrhau bod y mesurau yn CRhPLI Torfaen yn cydweddu â hwy a bydd yn cymryd cyfleoedd i gyflawni yn erbyn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, dim ond testun a gafodd ei gynnwys, dim enghreifftiau. Os oes gennych enghreifftiau penodol yn CBST byddai'n dda eu cynnwys yn y cynllun.	Cynnwys enghreifftiau lle bydd amcanion CBST yn cyfateb i CRhBAH
18	CNC	Ni chyfeirir at Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Os yw CBST wedi adolygu AAS y SLRhPLI yng ngoleuni'r CRhPLI, dylid cyfeirio at hyn. Fodd bynnag, os yw CBST wedi penderfynu peidio ag adolygu'r AAS oherwydd nad oes unrhyw newid, dylid cyfeirio at AAS y SLRhPLI yn y CRhPLI.	Cyfeirio at AAS y SLRhPLI wreiddiol yn y CRhPLI
19	CNC	Yn ystod yr Asesiad Perygl Llifogydd Cychwynnol yn 2011 pan bennwyd yr ardaloedd perygl llifogydd, nodwyd mai'r ardal lle ceir perygl llifogydd yn Nhorfaen oedd Pont-y-pŵl a Chwibrân. Mae'r map ar tud 13 yn dangos hyn. Argymhellir eich bod yn cyfeirio at hyn yn y cyflwyniad i'r cynllun er mwyn dangos cysylltiad clir â cham cyntaf y Gyfarwyddeb Llifogydd.	Cysylltu'r ardal perygl llifogydd wreiddiol (Cwibrân a Phont-y-pŵl) â'r cyflwyniad
20	CNC	Yn y paragraff ar frig tud 24, dylid dileu'r cyfeiriad at Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.	Wedi diwygio'r cyfeiriad at y Comisiwn Coedwigaeth ac wedi enwi CNC fel yr awdurdod

Rhif	Sefydliad	Sylwadau a Wnaed	Camau Gweithredu
			perthnasol
21	CNC	Mae'n debygol iawn na fyddai darparu systemau rhybuddio cynnar yn ddichonadwy oherwydd y tirwedd a'r profiad o fflachlifoedd yn y dalgylch hwn. Mae llifogydd 22 Mai 2014 yn enghraifft dda o hyn oherwydd mai ychydig iawn o amser, os dim, a gafwyd hyd yn oed petai medryddion wedi'u gosod ar y cyrsiau dŵr dan sylw.	Cynlluniwyd cynllun peilot gan y swyddog perygl llifogydd i ganfod a fyddai'n ddilys ei gyflwyno ar raddfa fwy.
22	CNC	Da gweld bod y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd Torfaen wedi cynnwys yr amcanion a ganlyn, a nodir ar tud. 30, ac rydym yn eu cefnogi'n llawn: 10. Amddiffyn a Gwella SDdGA a SBCN; 11. Cyfrannu at gyflawni Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth CBS Torfaen; 12. Creu sianeli naturiol a chyrrff dŵr gan wneud yr addasiadau lleiaf:	Dim
23	AA	Paragraff olaf. A fyddai'n ddefnyddiol egluro ym mha gategori y mae CBST, h.y. a yw yn un o'r 8 Awd. Lleol yng Nghymru lle ystyrir bod perygl llifogydd sylweddol?	Gellid cyfeirio'n gynt at ardal Perygl llifogydd CBST
24	AA	O'r farn bod llifogydd o gyrsiau dŵr hefyd (h.y. Nant Dowlais) yn ystod mis Mai 2014. Byddai'n werth egluro hyn a nodi a oedd y tu hwnt i gyrraedd prif afon neu gwrs dŵr cyffredin.	Egluro Paragraff 3 i gynnwys dŵr wyneb, cyrsiau dŵr cyffredin a charthffosydd dŵr budr
25	AA	Er mwyn cynnwys yr holl fanylion, gellid hefyd nodi beth yw'r safonau dylunio ar gyfer systemau dŵr budr a dŵr ffres (byddai hyn yn rhoi'r perygl llifogydd o'r ffynonellau hyn yn ei gyd-destun).	Diwygio tud 12 i gynnwys y canllawiau diweddaraf o ran dyluniad carthffosydd a safonau adeiladu.
26	AA	Dyfnider llifogydd mewn eiddo. Angen gwirio a yw adeiladau <i>stubby</i> (neu adeiladu cyfatebol) eisoes wedi'u cynnwys yn y Mapiau Dŵr Wyneb gan ddileu'r angen i hidlo i ddyfnnderoedd uwchlaw 200mm. Os mai dyma'r sefyllfa, efallai bod nifer yr eiddo mewn perygl wedi'u hamcangyfrif yn rhy isel.	Ehangu'r esboniad ynglŷn â'r fethodoleg lle bo'n briodol.
27	AA	Ymhellach, pam defnyddio hidlwr 200mm os mai 150mm yw'r gwerth nodweddiadol yn yr ardal?	Ehangu'r esboniad ynglŷn â'r fethodoleg lle bo'n briodol
28	AA	Ai dadansoddiad cost a budd yw'r derminoleg gywir gan y dylid ystyried ffactorau eraill hefyd?	Ehangu'r adran ac egluro sut y blaenoriaethwyd y gwaith
29	AA	Cyfeirir at y Comisiwn Coedwigaeth a Chyngor Cefn Gwlad Cymru fel partneriaid ar wahân.	Diwygio'r cyfeiriad at y Comisiwn Coedwigaeth ac enwi CNC fel yr awdurdod perthnasol.
30	AA	Unwaith eto, a yw hidlo i ddyfnnderoedd llifogydd uwchlaw 200mm yn gywir?	Ehangu'r esboniad ynglŷn â'r fethodoleg.

Rhif	Sefydliad	Sylwadau a Wnaed	Camau Gweithredu
31	AA	Cam Gweithredu 11. Mae'n ehangach na CBST, hefyd mae hwn yn Gam Gweithredu Cenedlaethol.	Cynlluniwyd cynllun peilot gan y swyddog perygl llifogydd i ganfod a fyddai'n ddilys ei ddefnyddio ar raddfa fwy.
32	AA	Cam Gweithredu 20. Yn awgrymu ystyried gwaith peirianyddol "ar ôl ystyried pob dull arall ar gyfer rheoli perygl llifogydd." Oni ddylid ystyried gwaith peirianyddol fel rhan o ateb integredig yn hytrach na dewis olaf?	Aileirio'r mesurau i ehangu ar y defnydd integredig o waith peirianyddol
33	AA	Nid oes 'Cam Gweithredu' ar gyfer casglu data yn ymwneud ag achos o llifogydd.	Gofyniad Deddf RhLID 2010; heb ei ragweld fel mesur newydd
34	AA	Nodir bod asedau perygl llifogydd o fewn cyrsiau dŵr wedi'u cynllunio i safon Q100+20% i gymryd ystyriaeth o newid yn yr hinsawdd. Ai dyma'r achos ym mhob man?	Defnyddio'r derminoleg a ddefnyddiwyd yn Adran 19 er eglurder
35	AA	Mae rhifau'r tudalennau ar ôl tud. 40 yn anghywir.	Ailfformatio
36	Aelod o'r Cyhoedd	Nid yw'r cysylltiad ar tud 9 y ddogfen yn gweithio http://naturalresourceswales.gov.uk/alerts/whats-my-flood-risk/?lang=en#.U9DdgXIOU5h Mae hyn yn wir am gysylltiadau eraill ar wefan cyfoethnaturaioecymru.gov.uk	Diwygio tud 8 a'r cysylltiadau i fapiau rhyngweithiol AA/CNC yn gyffredinol
37	Aelod o'r Cyhoedd	A yw'r ffigyrau ar gyfer Risg Isel, Canolig ac Uchel yn cynnwys y trigolion a ddiodefodd llifogydd ar 22 Mai 2014?	Atebwyd ar wahân
38	Aelod o'r Cyhoedd	Prynais dŷ yn St Joseph's Meadow lle dywedwyd fod y tebygolrwydd o ddiodef llifogydd yn un mewn 1000 o flynyddoedd. Bellach ymddengys fod y lleoliad wedi llifogi ddwywaith mewn 35 mlynedd. Felly ble mae Nant Cwmbrân yn y rhestr o ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd?	Atebwyd ar wahân
39	Aelod o'r Cyhoedd	Ers y llifogydd ar 22 Mai 2014 pan achosodd rhwystr mewn cwrs dŵr yn Nant Cwmbrân lifogydd difrifol i 10 cartref o leiaf yn St Joseph's Meadow, Llantarnam, rwyf wedi cadw llygad ar Nant Cwmbrân drwy edrych ar yr ardal dan sylw o leiaf unwaith y mis, yn enwedig ar ôl glaw trwm. Yn ddiweddar, sylwais fod rhywun wedi taflu troli archfarchnad yn yr un fan felly cysylltais â'r Cyngor drwy ddefnyddio ap Torfaen. Fel roeddwn wedi amau, o fewn ychydig ddyddiau cefais neges yn dweud nad oedd y cwrs dŵr yn berchen i CBS Torfaen ac nad oedd dim y gallai'r cyngor ei wneud. Fel y dywedaf, roeddwn yn amau mai dyna fyddai'r ateb, felly roeddwn hefyd wedi anfon copi o'r manylion at Andrew Villars ac fe gysylltodd â pherchnogion Ystad Ddiwydiannol Court Road a chyn i mi dderbyn yr ebost gan ap Torfaen yn dweud wrthyf nad oedd yn bosibl iddynt wneud dim, roedd y rhwystr eisoes wedi ei symud. Mae hyn yn dangos fod problemau o ran adrodd am achosion, oni bai eich bod yn gwybod sut i gysylltu â'r bobl gywir. Roeddwn yn lwcus fy mod wedi dangos y fan lle digwyddodd y llifogydd yn Nant Cwmbrân i'r Cynghorydd lleol David	Atebwyd ar wahân

Rhif	Sefydliad	Sylwadau a Wnaed	Camau Gweithredu
		Daniels a'n bod wedi cyfarfod Andrew Villars a gŵr o Network Rail. Er fy mod yn gwybod am Andrew Villars nid oeddwn wedi ei gyfarfod o'r blaen felly roedd yn dda cysylltu ag ef.	
40	Aelod o'r Cyhoedd	Caiff un ardal ei chrybwyll yn yr ymgynghoriad ar tud. 15, nodir bod 'CBST wedi cynnal asesiad o'r perygl llifogydd ar sail dŵr 200mm o ddyfnder ar y tri cham perygl a ddefnyddir gan CNC'. Fe wnes i geisio cerdded o'm hystad tuag at y llinell reilffordd ac ymlaen at Nant Cwmbrân ond bu'n rhaid i mi gerdded yn araf iawn oherwydd er fy mod yn gwisgo <i>wellingtons</i> roedd y dŵr dim ond modfedd o dop fy esgidiau. Mae hynna'n golygu ei fod dros 200mm ac yn agosáu at 300mm. Felly dylid cynnwys Nant Cwmbrân yn bendant ar restr o ardaloedd lle ceir perygl llifogydd.	Atebwyd ar wahân
41	Aelod o'r Cyhoedd	Datganiad diddorol arall o'r ddogfen ymgynghori yw: 'Os caiff 50% neu fwy o berimedr unrhyw eiddo ei wlychu gan y modelau llifogydd gorchuddiol, ystyrir ei fod wedi'i lifogi'n fewnol'. Petai hyn yn cael ei gynnwys ar gyfer trigolion St Joseph's Meadow yna byddai'r ffigur yr adroddais yn gynt ar gyfer nifer y bobl a gafodd eu heffeithio gan lifogydd ddwywaith neu deirgwaith yn fwy gan fod nifer o'r trigolion yn lwcus fod y dŵr wedi llifo drwy eu gerddi ac i eiddo eraill ar yr ystad. Mae lluniau a dynnwyd gennyf a'r South Wales Argus yn dangos sawl stryd o dan ddŵr ac roedd yn amhosibl dod i lawr y strydoedd heb wisgo bŵts. Roeddwn yn lwcus gan fod fy nhŷ tua ½ metr yn uwch na thai rhai o'm cymdogion ac fe wnaeth y dŵr effeithio un ardal fach ar ochr fy nhŷ yn unig, lle wnaeth y dŵr lifo ar fan parcio'r tŷ drws nesaf sydd wrth ymyl fy nghartref. Yn wir, roedd fy nghymdoges hyd yn oed yn fwy lwcus gan fod y dŵr wedi cyrraedd dros stepen y drws ffyrnt ac roedd o fewn modfedd i lifo drwy'r drws pan ddechreuodd y dŵr fynd i lawr. Nid oedd rhai o'r cymdogion eraill mor ffodus a bu'n rhaid iddynt adael eu cartrefi nes eu bod wedi sychu. Bu rhai i ffwrdd o'u cartrefi am 6-8 wythnos.	Atebwyd ar wahân
42	Aelod o'r Cyhoedd	Rwyf yn fodlon iawn bod yn aelod o grŵp a gaiff ei ffurfio yn Llantarnam. Rwyf eisoes yn gadeirydd grŵp cadwraeth trigolion lleol yn gweithio yng Ngerddi Blodau Oakfield mewn partneriaeth gyda Pharciau Torfaen. Gadewch i mi wybod sut y gallaf gymryd rhan os gwelwch yn dda. Rwyf yn edrych ymlaen i glywed gan y cyngor wrth i chi wneud mwy o waith i leihau llifogydd yn Nhorfaen ac yn enwedig yn Llantarnam ac rwyf yn gobeithio y byddwch yn cysylltu â'r ymgynghoreion wrth i'r broses barhau.	Atebwyd ar wahân
43	Aelod o'r Cyhoedd	Fe wnaeth Andrew Villars ac Owen Griffiths wneud sawl datganiad mai digwyddiad "agosach at 1 mewn 1000 mlynedd" oedd Llifogydd Cwmbrân ar 22 Mai 2014. Rwyf yn anghytuno'n chwynr â'r datganiadau hyn; fe wnaeth CBST gytuno a chyhoeddi Adran 19 Adroddiad Ymchwil Llifogydd – Cwmbrân, sy'n nodi'n glir yn y crynodeb gweithredol fod "y llifogydd a effeithiodd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar 22 Mai 2014, yn ardal Cwmbrân, o ganlyniad i dywydd eithafol lleol a aseswyd yn uwch na digwyddiad 1 mewn 100 mlynedd"	Atebwyd ar wahân

Rhif	Sefydliad	Sylwadau a Wnaed	Camau Gweithredu
44	Aelod o'r Cyhoedd	Sut y gall Swyddogion CBST asesu'r llifogydd a ddiodefodd Cwibrân ar 22 Mai 2014 fel digwyddiad 'agosach at 1 mewn 1000 o flynyddoedd, pan ddywed Owen Griffiths ei hyn fod "cofnodion yn mynd yn ôl 100 mlynedd yn unig" – felly mae agosach i 1 mewn 1000 o flynyddoedd yn gwbl wrthrychol a di-sail ac felly dylai CBST weithredu i dynnu'r datganiad hwn yn ôl yn gyhoeddus a chofnodi hynny.'	Atebwyd ar wahân
45	Aelod o'r Cyhoedd	Dywedodd Owen Griffiths fod ardaloedd yn Nhorfaen wedi'u nodi a'u dynodi fel ardaloedd lle ceir perygl Uchel, Canolig neu Uchel o lifogydd yng Nghynllun Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLI) CBST ac yr ymgynghorir â chymunedau/trigolion yr ardaloedd rheini ar sail blaenoriaeth yn unol â'r categorïau Uchel, Canolig, Isel. Nid yw CRHPLI CBST yn ddogfen hawdd ei darllen wrth geisio chwilio am y wardiau neu ardaloedd/strydoedd/ffyrdd a ddynodwyd yn y categorïau perygl Uchel, Canolig neu Isel. Rwyf yn awgrymu'n gryf felly y dylai CBST gyhoeddi rhestr lawn o Wardiau Torfaen, yn nodi'n syml pa wardiau, ardaloedd/strydoedd/ffyrdd sydd yn y categorïau perygl Uchel, Canolig neu Isel. Bydd hyn o fudd mawr i'r trigolion ac o gymorth i unrhyw gamau amddiffyn personol y bydd aelodau'r cyhoedd yn ystyried eu cymryd yn unol â'r perygl llifogydd.	Atebwyd ar wahân
46	Aelod o'r Cyhoedd	CBST Adran 19, Adroddiad ar Llifogydd Cwibrân, Argymhelliad rhif 4 – "Yn achos datblygiadau newydd, dylid annog cynlluniau Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau), ynghyd ag amgylcheddau gwyrdd o fewn cymunedau i ddatblygu draenio naturiol". Fe wnaeth swyddogion ddatgan yn glir nad yw SDCau yn statudol ar hyn o bryd ac felly nid oes gan CBST ddim awdurdod i sicrhau bod datblygwyr yn ariannu ac yn cyflenwi dyluniadau/prosiectau adeiladau sy'n cyfateb i SDCau. Nid yw Argymhelliad 4 yn nod realistig os yw'n dibynnu ar ewyllys da datblygwr/adeiladwr i ariannu rhwymedigaethau gwirfoddol anstatudol. Felly nid yw Argymhelliad rhif 4 yn ddim mwy na dyhead ac mae'n annhebygol o fod yn effeithiol iawn ac nid yw'n nod realistig i liniaru llifogydd.	Atebwyd ar wahân
47	Aelod o'r Cyhoedd	Roedd cryn dipyn o'r drafodaeth rhwng Swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ynglŷn â diffyg unrhyw gostio ariannol/dadansoddiad cost a budd a oedd yn cyfateb i Amcanion y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd a'r tri chynllun gwaith a nodwyd yn y dadansoddiad asesiad risg. Yn ychwanegol i hyn, dywedodd Andrew Villars 'mai chwe blynedd yw oes y CRhPLI ac na chaiff ei gymeradwyo'n ffurfiol tan ddiwedd y flwyddyn 2015', amcangyfrifodd Andrew Villars y 'byddai costau ariannol yn cael eu dynodi i Amcanion y CRhPLI yn ystod 2016'. Rwyf yn rhagdybio felly os na chaiff cyllid digonol ei awdurdodi yn ystod 2016 yna nid yw'n debygol y caiff gwaith i gyflawni'r amcanion hyn ei ddechrau tan ddiwedd 2016/2017. Hefyd ni chafwyd unrhyw gyfeiriad/sylw yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 18 Mawrth 2015 at ffynhonnell y cyllid ar gyfer hwylyso'r tri chynllun gwaith a nodwyd yn y dadansoddiad asesiad risg.	Atebwyd ar wahân
48	Aelod o'r Cyhoedd	Roeddwn eisiau edrych ar y mapiau perygl llifogydd ar gyfer Torfaen ond nid oedd y cyslltiad arlein yn derbyn fy nghyfrinair. A ellir gweld y rhain yn swyddfeydd y cyngor, os gwelwch yn dda?	Atebwyd ar wahân

Rhif	Sefydliad	Sylwadau a Wnaed	Camau Gweithredu
49	Aelod o'r Cyhoedd	Helo, hoffwn awgrymu eich bod yn anfon bagiau tywod i'r tai ar ochr dde Ffordd Penygarn? (wrth i chi yrru i fyny)	Atebwyd ar wahân
50	Aelod o'r Cyhoedd	Rwyf wedi darllen y ddogfen ac er nad wyf yn arbenigo yn y maes, roeddwn yn synnu i weld fod yr hen byllau yn achosi problem Cwestiwn – ai'r bwrdd glo sy'n gyfrifol am lenwi'r pyllau hyn.	Atebwyd ar wahân
51	Aelod o'r Cyhoedd	Cwestiwn arall – pa effaith fydd hyn yn ei gael ar dreth y cyngor lleol	Atebwyd ar wahân
52	Aelod o'r Cyhoedd	Efallai fod angen ymchwilio i ailgylchu yn Nhorfaen gan fy mod wedi gweld y ffordd y caiff y bocsys bach du eu gwagio a'r sbwriel a gaiff ei adael ar y ffordd yn chwythu i bob man /awgrym – gellid defnyddio'r bin gwyrdd a rhoi'r holl ddeunyddiau sydd i'w hailgylchu gyda'i gilydd i'w didoli yn y ganolfan ailgylchu. Byddai hyn yn golygu fod llai o sbwriel yn casglu o amgylch y draeniau.	Atebwyd ar wahân
53	Yr Adran Gynllunio	Y cysylltiad â'r Strategaeth ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd (tud 6) cysylltiadau â SEPA (yr Alban)	Diwygiwyd y cysylltiad gwe
54	Yr Adran Gynllunio	Ni chafodd llawer o'r manylion sy'n ymwneud â chynllunio eu cynnwys yn y CRhPLI. Credaf y byddai'n ddefnyddiol cyfeirio atynt yn y CRhPLI yn enwedig mewn perthynas â mesurau 13 ac 19 sy'n ymwneud â chynllunio.	Cafodd mwy o gysylltiadau eu cynnwys i gyfateb i waith y CDLI
55	Yr Adran Gynllunio	Mewn perthynas â mesur 13 (tud 37). Mae polisiâu sy'n ymdrin â lliniaru llifogydd ac addasiadau yn y CDLI (yn enwedig Polisi S3) y dylid cyfeirio atynt ac mae hyn yn gymwys i bob datblygiad nid yn unig ysgolion yr 21 ^{ain} ganrif. Rydym yn disgwyl i bob datblygiad ystyried y polisi hwn a'r defnydd o SDCau felly nid wyf yn ystyried ysgolion yr 21 ^{ain} ganrif yn eithriadau nac yn brosiectau peilot yn y cyd-destun hwn.	Ehangwyd y cyfeiriad at y CDLI a'r terminoleg y tu ôl i ysgolion yr 21ain ganrif
56	Yr Adran Gynllunio	Mewn perthynas â mesur 19 (tud 39) mabwysiadwyd CDLI Torfaen ym mis Rhagfyr 2013. Caiff datblygiadau'r dyfodol eu cynllunio drwy'r CDLI gan roi ystyriaeth i ddatblygu cynaliadwy (gan gynnwys llifogydd). Roedd y CDLI yn cynnwys yr holl wybodaeth llifogydd ddiweddaraf a lluniwyd polisiâu a dyraniadau gyda hyn mewn golwg ynghyd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy (seiliwyd y CDLI ar werthusiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol). Datblygwyd cynllun addas felly sy'n ymgorffori gwybodaeth am berygl llifogydd. Nid yw'n golygu y 'gellir' ymgorffori modelu hydrolegol pellach yn y CDLI ond mae hynny eisoes yn bod a bydd yn parhau i gael ei fwydo i unrhyw adolygiadau pellach o'r cynllun. Yn ogystal, mae polisiâu'r cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd gael eu seilio ar yr wybodaeth ddiweddaraf a datblygiadau newydd i ymdrin â lliniaru llifogydd ac addasu (gweler mesur 13 uchod) felly mae eisoes yn ofynnol i gynnwys mesurau capasiti a chydnerthedd yng nghynlluniau sail y prosiectau, gan greu rhaglen gydnherthedd ragweithiol.	Adolygu'r CDLI yn hytrach na diweddarau'r ddogfen cyn diwedd ei oes silff.

Rhif	Sefydliad	Sylwadau a Wnaed	Camau Gweithredu
57	Yr Adran Gynllunio	Dylai Adran 12 gynnwys cysylltiadau y cyfeirir atynt yn y Prif Ddogfennau sydd ynghlwm (gweler y crynodeb sydd ynghlwm)	Cynnwys cyfeiriad at Ddogfennau'r CDLI yn adran 12

Tabl 2: manylion yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r camau a gymerwyd i ddiwygio'r CRhPLI.